**Drafft**

# Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Moch

**Cynnwys** **Paragraff**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | |
| **Cyflwyniad** | **1 - 6** |
| **Adran 1 – Argymhellion ar gyfer pob mochyn** | |
| **Stocmonaeth** | **7 - 20** |
| Cyffredinol | 7 - 10 |
| Arolygu | 11 - 13 |
| Trafod | 14 – 16 |
| Cludo oddi ar y fferm | 17 |
| Marcio | 18-20 |
| **Iechyd** | **20 - 46** |
| Cyffredinol | 21 - 22 |
| Biodiogelwch | 23 - 28 |
| Sgorio cyflwr | 29 |
| Cloffni | 30 - 32 |
| Parasitiaid allanol | 33 |
| Parasitiaid mewnol | 34 |
| Cyfarpar ar gyfer brechu a rhoi triniaeth | 35 |
| Clefydau hysbysadwy | 36 - 37 |
| Anifeiliaid sâl ac anafus | 38 – 44 |
| Cadw cofnodion | 45 - 46 |
| **Llety** | **47 - 66** |
| Cyffredinol | 47 - 49 |
| Lloriau | 50 - 51 |
| Awyru a thymheredd | 52 - 58 |
| Golau a lefelau sŵn | 59 - 60 |
| Cyfarpar awtomataidd a mecanyddol | 61 - 63 |
| Rhagofalon tân a rhagofalon brys eraill | 64 - 66 |
| **Bwyd, dŵr a sylweddau eraill** | **67 - 77** |
| **Rheoli** | **78 - 92** |
| Cyffredinol | 78 - 79 |
| Cyfoethogi’r amgylchedd | 80 - 81 |
| Disbaddu | 82 |
| Tocio cynffonnau | 83 – 86 |
| Byrhau dannedd | 87 - 88 |
| Serfio naturiol | 89 |
| Cyfebru artiffisial, fasectomi ac electro-alldaflu | 90 - 92 |

**Adran 2 – Argymhellion penodol**


**Hychod porchella a pherchyll** **93 - 99**

**Perchyll diddwyn a moch magu** **100 - 101**

**Hychod a banwesi hesb** **102 - 105**

**Baeddod** **106 - 108**

**Moch sy'n cael eu cadw mewn systemau hwsmona allanol** **109 - 127**
- Cyffredinol 109 - 112
- Biodiogelwch 113 - 114
- Llety 115 - 118
- Bwydo a dyfrio 119 - 121
- Ffensys 122 - 124
- Hychod porchella a pherchyll 125 - 126
- Modrwyo trwynau 127

**Yr Atodiad**
- Cyhoeddiadau defnyddiol

## RHAGAIR

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod, ond bwriedir yn hytrach iddo esbonio diben y Cod a nodi'r ystyriaethau bras y mae'r Cod wedi'i seilio arnynt. Yn yr un modd, nid yw'r ddeddfwriaeth a ddyfynnir mewn blychau drwy'r ddogfen yn rhan o'r Cod ond bwriedir iddi danlinellu'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Y gyfraith a ddyfynnir yn y blychau hyn yw'r gyfraith sydd mewn grym ar naill ai'r dyddiad cyhoeddi neu'r dyddiad adargraffu (trowch i'r clawr cefn i gael yr wybodaeth hon). Dylai'r darllenwyr wybod y gall unrhyw un o'r gofynion cyfreithiol a ddyfynnir gael eu newid – dylent ofyn am gadarnhad cyn rhagdybio bod y rhain yn ddatganiad manwl-gywir o'r gyfraith sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Mae rheoliad 10 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682) yn darparu bod:

Rhaid i unrhyw berson sy'n cyflogi person neu'n ei gymryd ymlaen i ofalu am anifeiliaid sicrhau bod y person sy'n gofalu am yr anifeiliaid:

- yn gydnabyddus â darpariaethau'r holl godau lles statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r anifeiliaid y gofelir amdanynt;
- yn gallu cael gweld copi o'r codau hynny tra bydd yn gofalu am yr anifeiliaid; ac
- wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y codau hynny.

Ni chaiff unrhyw berson sy'n cadw anifeiliaid, neu sy'n peri neu'n fwriadol yn caniatáu i anifeiliaid gael eu cadw, ofalu amdanynt oni bydd yn gallu cael gweld yr holl godau lles statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r anifeiliaid tra bydd yn gofalu amdanynt, ac yn gydnabyddus â darpariaethau'r codau hynny.

Yn Rheoliad 2, dywedir bod "cod lles statudol" yn golygu cod sydd wedi'i gyhoeddi am y tro o dan Adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968.

Mae peri poen diangen neu drallod diangen i unrhyw dda byw ar dir amaethyddol yn dramgwydd o dan Adran 1(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968. Er nad yw torri un o ddarpariaethau'r cod yn dramgwydd ynddo'i hun, fe all hynny gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth sy'n tueddu i gadarnhau bod unrhyw un a gyhuddir o'r tramgwydd o beri poen neu drallod diangen o dan y Ddeddf yn euog (Adran 3 (4)).

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Rheoliad 3(1), rhaid i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid gymryd pob cam rhesymol:

- i sicrhau lles yr anifeiliaid o dan eu gofal; ac
- i sicrhau na pherir unrhyw boen, dioddefaint nac anaf diangen i'r anifeiliaid.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Rheoliad 3(3):

- Wrth benderfynu a yw'r amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu bridio neu eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, rhaid i berchennog a cheidwad yr anifeiliaid roi sylw i'w rhywogaeth, ac i radd eu datblygiad, eu haddasiad, a'u dofiad, ac i'w hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol â phrofiad cynefin a gwybodaeth wyddonol.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Rheoliad 11:

- Os yw person awdurdodedig o'r farn bod anifeiliaid yn cael eu cadw mewn ffordd sy'n debygol o achosi poen, dioddefaint neu anaf diangen, neu mewn unrhyw ffordd arall yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, gall gyflwyno hysbysiad i'r person y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal yr anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw, o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad, gymryd unrhyw gamau sydd ym marn y person awdurdodedig yn rhesymol angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau hyn a rhaid i'r person awdurdodedig roi ei resymau dros fynnu'r camau hynny.

Yn ôl Rheoliad 13(2):

- Mewn unrhyw achos yn erbyn perchennog neu geidwad anifeiliaid am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3(1) neu 3(2) (fel y'u darllenir ynghyd â rheoliad 3(3)), gall y perchennog neu'r ceidwad, yn ôl fel y digwydd, ddibynnu ar y ffaith eu bod wedi cydymffurfio ag unrhyw argymhelliad perthnasol a gynhwysir mewn cod lles statudol fel pe bai'n tueddu i sefydlu eu bod wedi cydymffurfio â'r rheoliad perthnasol.

Y bwriad yw i'r Cod annog pawb sy'n gofalu am anifeiliaid fferm fabwysiadu'r safonau hwsmonaeth uchaf. Heb stocmonaeth dda, ni all lles anifeiliaid byth gael ei ddiogelu'n ddigonol. Bydd glynu wrth y Cod hwn yn helpu ceidwaid stoc i gyrraedd y safonau lles angenrheidiol. Ni waeth pa mor dderbyniol y gall system fod mewn egwyddor, nid oes modd darparu ar gyfer lles yr anifeiliaid mewn modd digonol heb stocmonaeth gymwys a diwyd.

Ystyrir lles moch o fewn fframwaith a luniwyd gan Gyngor Lles Anifeiliaid Fferm, ac a elwir y 'Pum Rhyddid'. Mae'r rhain yn sylfaen rhesymegol ar gyfer asesu lles o fewn unrhyw system hwsmona ynghyd â'r camau sy'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifeiliaid o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithlon.

Dyma'r Pum Rhyddid:-

1. **Rhyddid oddi wrth eisiau bwyd a syched**
   drwy gael mynd yn hwylus at ddŵr ffres a deiet i gynnal iechyd a bywiogrwydd llawn;

2. **Rhyddid rhag anghysur**
   - drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus;

3. **Rhyddid rhag poen, anaf neu glefyd**
   - drwy eu hatal neu drwy eu diagnosio a'u trin yn gyflym;

4. **Rhyddid i fynegi'r rhan fwyaf o ymddygiad normal**
   - drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni o'r un fath â'r anifeiliaid eu hunain;

5. **Rhyddid rhag ofn a thrallod**
   - drwy sicrhau amodau a thriniaeth i osgoi dioddefaint meddyliol.

Wrth gydnabod y rhyddidau hyn, dylai'r rhai sy'n gofalu am dda byw ddangos y canlynol:

- cynllunio a rheoli gofalgar a chyfrifol;
- stocmonaeth fedrus, wybodus a chydwybodol;
- dylunwaith amgylcheddol priodol (er enghraifft, o'r system hwsmona);
- trafod a chludo ystyriol;
- cigydda tosturiol.

Deddfau Diogelu Anifeiliaid 1911 – 2000 sy'n cynnwys y gyfraith gyffredinol ynghylch creulondeb i anifeiliaid. Yn fras, mae'n dramgwydd (o dan Adran 1 o Ddeddf 1911) bod yn greulon i unrhyw anifail domestig neu anifail caeth drwy unrhyw beth a wneir neu na wneir mohono.

Mae adran 12(2) o Ddeddf 1911 yn rhoi pŵer i gwnstabl heddlu gadw mewn lle diogel anifeiliaid sydd o dan ofal personau sydd wedi'u dal am dramgwydd o dan y Ddeddf tan ddiwedd yr achos neu nes i'r llys orchymyn bod yr anifeiliaid yn cael eu dychwelyd. Gall yr heddlu adennill y costau rhesymol, gan gynnwys costau unrhyw driniaeth filfeddygol angenrheidiol, oddi ar y perchennog os caiff ei gollfarnu.

O dan adran 1 o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 1954, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1988, mae gan y llys y pŵer i anghymhwyso person sydd wedi'i gollfarnu o dan y Deddfau hynny rhag cael cadw unrhyw anifail. Gall y gwaharddiad bennu math penodol o anifail neu bob anifail am unrhyw gyfnod sy'n addas ym marn y llys.

Mae Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 2000 yn cydategu Deddf 1911 drwy ganiatáu i lys wneud gorchymyn sy'n ymwneud â gofalu am anifeiliaid sy'n cael eu cadw at ddibenion masnachol ac sy'n destun erlyniad a ddygir o dan Ddeddf 1911 gan "erlynydd", eu gwaredu neu eu cigydda. Diffinnir "erlynydd" yn Neddf 2000 i gynnwys cyrff penodol sy'n dwyn erlyniadau (Gwasanaeth Erlyn y Goron, adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol) ac unrhyw berson neu gyrff a gymeradwyir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig neu

Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yna mae Deddf 2000 yn caniatáu i gostau rhesymol gael eu hadennill oddi ar y perchennog gan yr “erlynydd”.

Mae’r Cod hwn yn gymwys yng Nghymru yn unig ac mae wedi’i gyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’n disodli (hefyd mewn perthynas â Chymru yn unig) y rhan honno o’r Cod presennol ar Foch a gyhoeddwyd ym 1983. Mae Codau tebyg yn cael eu cynhyrchu yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a hyd nes y bydd y Codau newydd yn cael eu cyhoeddi, fe fydd yn Cod presennol yn parhau’n gymwys..

**CAFODD Y COD LLES HWN EI GYHOEDDI AR ………… 2003**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Cod hwn (sy'n gymwys yng Nghymru yn unig) yn ymdrin â phob mochyn. Mae'r gair "moch" yn cyfeirio at bob stoc o deulu'r mochyn, ac mae'n cynnwys baeddod gwyllt sy'n cael eu cadw at ddibenion ffermio. Mae porchell yn cyfeirio at fochyn o'i eni i'w ddiddyfnu.

2. Mae argymhellion y Cod yn gymwys i foch o dan bob system hwsmona. Mae adran 1 o'r Cod yn rhoi'r argymhellion sy'n gymwys i foch o bob oedran a math. Mae adran 2 yn ymdrin â'r argymhellion sy'n gymwys i gategorïau penodol o foch (megis baeddod neu foch sy'n cael eu cadw yn yr awyr agored). Os dilynir yr argymhellion hyn, byddant yn helpu i ddiogelu lles y stoc. Nid yw argymhellion y Cod yn rhestr gyflawn ac nid ydynt wedi'u bwriadu i ddisodli cyngor arbenigwyr (megis cyngor gan filfeddyg).

3. Dylai'r system hwsmona sy'n cael ei defnyddio, a'r nifer o foch a gedwir ar unrhyw un adeg, ddibynnu ar y canlynol:

- addasrwydd amgylchedd y fferm;
- faint o anifeiliaid y gall y fferm eu lletya yr un pryd;
- cymhwysedd y ceidwad stoc; a
- faint o amser sydd gan geidwaid stoc i gyflawni eu dyletswyddau.

4. Mae ffermio moch yn organig yn cael ei wneud yn unol â safonau ychwanegol sy'n cael eu gorfodi yn ôl y gyfraith. Er hynny, nid oes dim yn y safonau hynny yn effeithio ar gyfrifoldebau cyfreithiol ffermwyr organig ynglŷn â lles positif anifeiliaid. Dylai unrhyw faterion, sy'n ymddangos eu bod yn gwrthdaro â safonau organig, gael eu trafod gyda'ch corff dilysu organig a dylech wneud cais am gyngor arbenigol, megis gan filfeddyg.

5. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i hwsmonaeth, cyfarpar na chynhyrchu nes bod yr effeithiau posibl ar les yr anifeiliaid wedi'u hystyried. Yn benodol, dylid ystyried yr effaith bosibl ar les anifeiliaid cyn gosod cyfarpar sy'n fwy cymhleth neu fanwl na'r hyn a ddefnyddiwyd o'r blaen. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r cyfyngiad a orfodir ar yr anifail a pho fwyaf yw cymhlethdod y system gyffredinol, po leiaf y mae'r anifail yn gallu defnyddio ei ymddygiad i newid effaith yr amodau anffafriol. Dim ond pan fydd staff cydwybodol sy'n fedrus o ran hwsmona anifeiliaid a defnyddio'r cyfarpar ar gael bob amser y dylid gosod systemau sy'n golygu graddau uchel o reolaeth ar yr amgylchedd.

6. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch lles anifeiliaid yn gymwys i berchenogion yn ogystal ag unrhyw un sy'n gofalu am foch ar eu rhan, lle bynnag y bo'r moch – naill ai ar y fferm neu wrth eu cludo. Gall contract ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â hyn yn glir am eu cyfrifoldebau lles anifeiliaid. Er hynny, bydd y rhwymedigaethau sy'n cael eu gosod o dan y gyfraith yn dal yn gymwys, p'un a yw contract yn bodoli neu beidio. Gall agweddau penodol ar hwsmona da byw olygu peryglon i iechyd a diogelwch y ceidwad stoc megis lefel y llwch yn yr amgylchedd. Mae cyngor ar y faterion o'r fath ar gael oddi wrth Arolygydd Diogelwch Amaethyddol y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

## ADRAN 1 – ARGYMHELLION AR GYFER POB MOCHYN

### Stocmonaeth

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682) yn diffinio "ceidwad" fel "unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid neu â gofal ohonynt p'un ai ar sail dros dro neu barhaol".

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, Paragraff 1:

Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

**Cyffredinol**

7. Y dylanwad unigol mwyaf arwyddocaol ar les moch yw'r ceidwad stoc, a ddylai ddatblygu trefn effeithiol ar gyfer gofal parhaol a'i weithredu. Yn gyffredinol, po fwyaf yw maint yr uned, po fwyaf yw graddau'r medrau a'r gofal y mae eu hangen i ddiogelu lles. Ni ddylai maint uned gael ei gynyddu, ac ni ddylid sefydlu uned fawr, oni bai ei bod yn sicr y bydd lefel y stocmonaeth yn ddigon uchel i ddiogelu lles pob mochyn unigol.

8. Dylai ceidwaid stoc baratoi cynllun iechyd a lles gyda milfeddyg y genfaint ac, os oes angen, gyda chynghorwyr technegol eraill. Dylech adolygu a diweddaru eich cynllun iechyd a lles o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r cynllun hefyd nodi'r gweithgareddau iechyd a hwsmonaeth drwy gydol y gylched gynhyrchu a chynnwys strategaethau i wahardd, trin neu gyfyngu ptoblemau afiechyd sy'n bodoli eisioes. Dylai'r cynllun gynnwys digon o gofnodion i chi allu asesu allbwn sylfaenol y genfaint a monitro lles y moch.

9. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r fferm sicrhau bod y moch yn derbyn gofal gan ddigon o staff selog a chymwys. Mae angen i'r staff hyn fod yn ymwybodol o anghenion lles y moch a gallu eu diogelu rhag yr holl broblemau a ddisgwylir cyn eu bod yn cael unrhyw gyfrifoldeb. Mae hyn yn golygu bod angen i'r staff feddu ar wybodaeth a medrau penodol, y dylent eu magu ar y fferm drwy weithio gyda cheidwad stoc medrus sy'n brofiadol yn y system berthnasol. Lle bynnag bo'n bosibl, dylai'r staff fynychu cyrsiau perthnasol hefyd sy'n cael eu rhedeg gan gorff hyfforddi addas. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant arwain at gydnabod cymhwysedd yn ffurfiol. Dylai unrhyw lafurwyr contract neu lafurwyr dros dro sy'n cael eu defnyddio ar y fferm gael eu hyfforddi yn y gweithgaredd perthnasol a bod yn gymwys i'w gyflawni.

10. Dylai ceidwaid stoc fod yn wybodus ac yn gymwys mewn ystod eang o fedrau iechyd a lles anifeiliaid, a ddylai gynnwys:

- medrau trafod (gweler paragraffau 4 – 7);
- 
- atal cloffni a'i drin (gweler paragraffau 30-32);

- atal parasitiaid mewnol ac allanol a'u trin (gweler paragraffau 33-34);
- rhoi meddyginiaethau drwy chwistrelliad (gweler paragraff 35);
- darparu gofal priodol ar gyfer moch sydd yn wael neu wedi'u hanafu (gwelerr paragraffau 38-44);
- gofalu am yr hwch a'i thorllwyth (gweler paragraffau 93 – 99); a
- rheoli moch i leiafu ymosodedd (gweler paragraff 100).

Os disgwylir i'r ceidwad stoc gyflawni tasgau penodol ar y fferm (er enghraifft, cyfebru artiffisial neu glipio/llyfanu dannedd), yna dylai fod wedi'i hyfforddi ac yn gymwys.

**Arolygu**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 3:

Rhaid i bob mochyn gael ei arolygu gan berchennog neu geidwad y moch o leiaf unwaith y dydd i weld a yw mewn cyflwr iachus.

11. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar gael eu harolygu yn rheolaidd. Rhaid bod golau digonol ar gael i ganiatáu arolygiad trylwyr o'r stoc. Dylai pob ceidwaid stoc fod yn gyfarwydd ag ymddygiad normal moch. Ni fydd moch sy'n cael eu rheoli'n wael ac sy'n afiach yn ffynnu, ac mae'n hanfodol bod y ceidwad stoc yn cadw golwg am arwyddion gofid, clefyd neu ymosodedd tuag at anifail gan foch eraill yn y grŵp. I wneud hyn, mae'n bwysig bod gan geidwaid stoc ddigon o amser:

(a) i arolygu'r stoc;
(b) i wirio'r cyfarpar; ac
(c) i gymryd camau i ymdrin ag unrhyw broblem.

12. Dylai'r ceidwad stoc fod yn cadw golwg bob amser am arwyddion afiechyd mewn moch, sy'n cynnwys:

(a) ymwahanu â'r grŵp;
(b) llesgedd;
(c) bogail, tor neu gymalau chwyddedig;

(ch) anadlu'n gyflym neu'n afreolaidd;
(d) pesychu neu ddyhefod yn gyson
(dd) rhynnu;
(e) y croen yn llychwino neu'n pothellu;
(f) colli cyflwr y corff;
(ff) tisian; ;
(g) cloffni (mae arolygu'r traed a'r coesau yn arbennig o bwysig);;
(ng) diffyg cydgordiad/cydsymud ;
(h) rhwymedd; ac
(i) dolur rhydd;
(l) diffyg archwaeth; ac
(ll) cyfogi.

13. Dylech allu rhag-weld problemau neu eu hadnabod yn ystod cyfnodau cyntaf, ac, mewn llawer o achosion, dylent allu canfod yr achos a chywiro'r mater ar unwaith. Dylid bob amser ystyried y posibilrwydd fod mochyn yn dioddef o afiechyd hysbysadwy (gweler paragraffau 36-37). Os nad yw'r achos yn amlwg, neu os nad yw'r camau sy'n cael eu cymryd ar unwaith gennych yn effeithiol, dylid galw milfeddyg neu arbenigydd arall i mewn yn ddiymdroi – gall methu â gwneud hynny achosi dioddefaint diangen.

**Trafod**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 30:

Ni chaiff neb roi cerrynt trydan i unrhyw anifeiliaid er mwyn eu llonyddu.

14. Dylai moch gael eu symud yn ôl eu cyflymder eu hunain. Dylech eu hannog yn dringar – yn enwedig o amgylch corneli a lle mae'n llithrig dan draed. Dylech osgoi gormod o sŵn, cyffro neu rym. Rhaid i chi beidio â tharo na rhoi pwysau ar unrhyw ran o'r corff sy'n arbennig o sensitif. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw beth yr ydych yn ei ddefnyddio, megis byrddau moch neu ffyn balfod gwastad, i dywys yr anifeiliaid ond at y diben hwnnw a rhaid iddo beidio â bod yn un â phen miniog neu bigfain. Dylid osgoi defnyddio procwyr trydanol ar foch hyd y gwllir. Os defnyddir procwyr dylech bob amser sicrhau bod digon o le i'r moch symud ymlaen.

15. Dylech sicrhau bod pob llawr a thramwyfa yn cael ei chynnal yn dda a rhaid i chi ddarparu wyneb anllithrig. Ni ddylai'r llawr esgyn na disgyn yn rhy serth gan y gall gogwyddau mwy serth achosi problemau i'r coesau.

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 Atodlen 2, Rhan II, paragraff 15:

1. Heb ragfarnu darpariaethau erthygl 6 (6), rhaid peidio â hongian anifeiliaid drwy ddulliau mecanyddol, na'u codi na'u llusgo gerfydd y pen, y cyrn, y coesau na'r gynffon.
2. Ni chaiff neb ddefnyddio grym gormodol i reoli anifeiliaid.
3. Ni chaiff neb ddefnyddio:

(a) unrhyw offeryn sy'n gallu rhoi sioc trydanol er mwyn rheoli unrhyw anifail;
(b) unrhyw ffon (heblaw ffon balfod wastad neu farciwr palfod), ierthi anhrydanol nac unrhyw offeryn neu beth arall i daro neu brocio unrhyw foch.

4. Ni fydd y gwaharddiad ym mharagraff (a) uchod yn gymwys i ddefnyddio unrhyw offeryn ar ben ôl moch llawndwf sy'n gwrthod symud ymlaen os oes lle iddynt wneud hynny, ond dylid osgoi defnyddio unrhyw offeryn o'r fath cyn belled â phosibl.
5. Ni fydd dim yn y ddarpariaeth hon yn atal hongian cynhwysydd y mae anifail yn cael ei gario ynddo drwy ddull mecanyddol.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 4 a 5:

4. Ni chaiff neb roi tennyn na pheri rhoi tennyn ar unrhyw fochyn ac eithrio pan fydd yn mynd o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.

5(1) Pan ganiateir defnyddio tenynnau yn unol â pharagraff 4, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harolygu'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod o ddigon o hyd i ganiatáu i'r moch symud fel a bennir ym mharagraff 7(2) isod [gweler y blwch uwchben paragraff 47]a rhaid i'r

dyluniad fod yn un a fydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.

16. Rhaid bod modd i bob ceidwad stoc gael defnyddio systemau trafod effeithlon sy'n hawdd i'w defnyddio. Diben hyn yw caniatáu i chi reoli a thrin yr anifeiliaid fel rhan o'r drefn, a sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn dawel ac yn gadarn.

**Cludo oddi ar y fferm**

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997(O.S. 1997 Rhif 1480) Atodlen 2, Rhan II, paragraff 15:

1. Rhaid peidio â hongian anifeiliaid drwy ddulliau mecanyddol, na'u codi na'u llusgo gerfydd y pen, y cyrn, y coesau na'r gynffon.
2.. Ni chaiff neb ddefnyddio grym gormodol i reoli anifeiliaid.
3. Ni chaiff neb ddefnyddio:
(a) unrhyw offeryn sy'n gallu rhoi sioc trydanol er mwyn rheoli unrhyw anifail;
(b) unrhyw ffon (heblaw ffon balfod wastad neu farciwr palfod), ierthi anhrydanol nac unrhyw offeryn neu beth arall i daro neu brocio unrhyw foch.
4. Ni fydd y gwaharddiad ym mharagraff (a) uchod yn gymwys i ddefnyddio unrhyw offeryn ar ben ôl moch llawndwf sy'n gwrthod symud ymlaen os oes lle iddynt wneud hynny, ond dylid osgoi defnyddio unrhyw offeryn o'r fath cyn belled â phosibl.
5. Ni fydd dim yn y ddarpariaeth hon yn atal hongian cynhwysydd y mae anifail yn cael ei gario ynddo drwy ddull mecanyddol.

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 , Atodlen 2, paragraff 10:

- Rhaid llwytho a dadlwytho anifeiliaid yn unol â'r paragraff hwn.

- Ac eithrio fel y darperir yn is-baragraffau (6) a (7) isod rhaid eu llwytho a'u dadlwytho gan ddefnyddio rampiau, pontydd, pomprenni neu declynnau codi mecanyddol addas, sy'n cael eu gweithredu yn y fath fodd ag i atal anaf neu ddioddefaint diangen i unrhyw anifail.

- Rhaid i lawr unrhyw gyfarpar llwytho fod wedi'i adeiladu yn y fath fodd ag i atal llithro.

- Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6) isod, rhaid darparu rampiau, pontydd, pomprenni a llwyfannau llwytho ar bob ochr a hynny gyda dull diogelu -

  a. y mae ei gryfder, ei hyd a'i uchder yn ddigonol i atal unrhyw anifail sy'n defnyddio'r cyfarpar llwytho rhag syrthio neu ddianc; a
  b. sydd wedi'i lleoli fel na fydd yn arwain at anaf neu ddioddefaint diangen i unrhyw anifail.

(6) Caniateir llwytho neu ddadlwytho anifail drwy ei godi neu ei gario â llaw os yw maint yr anifail yn golygu bod modd ei godi'n hawdd gan nid mwy na dau

berson a bod y weithred yn cael ei chyflawni heb beri anaf na dioddefaint diangen i'r anifail.

(7) Caniateir i anifail gael ei lwytho neu ei dadlwytho heb gyfarpar neu drwy ei godi neu ei gario â llaw ar yr amod, o ystyried oed, taldra a rhywogaeth yr anifail, na fydd anaf neu dioddefaint diangen yn debyg o gael ei achosi wrth iddo gael ei lwytho neu ei ddadlwytho yn y modd hwn.

17. Dylai fod gennych y cyfleusterau ar y fferm i lwytho moch ar gerbyd a'u dadlwytho ohono, gyda chyn lleied o straen â phosibl. Dylai ceidwaid stoc wybod sut i drafod anifeiliaid wrth eu llwytho a'u dadlwytho gan gynnwys pryd i ddefnyddio byrddau moch i dywys yr anifail a sut i wneud hynny.

**Marcio**

18. Dylai marcio moch yn barhaol, er enghraifft â thatŵ i'r glust neu'r corff, neu drwy dagio'r glust, gael ei gyflawni gan weithredydd cymwys wedi'i hyfforddi, gan ddefnyddio offer sy'n cael eu cynnal yn briodol ac o dan amgylchiadau glanwaith. Mae slapfarcio yn ddull derbynniol pan fydd angen dynodi'r moch yn union cyn eu cludo i'w cigydda. Os defnyddir bylchu neu dyllu i farcio clustiau, at ddibenion rheoli cenfaint, dylech ddefnyddio cyfarpar priodol.

19. Pan fyddwch yn tagio, rhicio neu gosod tatŵ ar glust, dylech ffrwyno'r anifeiliaid yn iawn. Cymerwch ofal i leoli a mewnosod tagiau yn gywir gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan osgoi'r prif waedlestri a gwrymiau cartilag.

20. Os ydych yn defnyddio chwistrellau neu baentiau ar gyfer marcio dros dro, gwnewch yn siwr mai dim ond sylweddau diwenwyn a ddefnyddir.

## Iechyd

### Cyffredinol

21. Y gofyniad mwyaf sylfaenol sy'n effeithio ar les y mochyn yw ei gadw mewn iechyd da. Mae mesurau i ddiogelu iechyd yn cynnwys hylendid da, hwsmonaeth dda ac awyriad effeithiol. Gall brechiadau fod yn briodol ar gyfer clefydau penodol. Dylech sicrhau mai dim ond cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol awdurdodedig, gan gynnwys brechlynnau, sy'n cael eu defnyddio. Gellir cael gwybodaeth ddefnyddiol am statws iechyd y genfaint drwy adborth wrth arolygu cig yn y lladd-dy.

22. Dylai'r cynllun iechyd a lles ysgrifenedig (gweler paragraff 8) edrych hefyd ar y canlynol o leiaf:

(a) y trefniadau biodiogelwch a'r gweithdrefnau ar gyfer stoc sydd wedi'i brynu;
(b) gweithdrefnau ar gyfer stoc wedi'i brynu;
(c) unrhyw raglenni penodol ar gyfer rheoli clefydau, megis salmonela, y fflamwydden, E. coli, mycoplasma a'r firws parvo
(ch) y polisi brechu ac amseru brechiadau;
(d) gweithdrefnau ynysu;
(dd) cymysgu a grwpiau o foch
(e) rheoli parasitiaid allanol a mewnol;
(f) monitro cloffni a gofal traed;
(ff) gweithdrefnau rheolaidd, megis tagio clust; ac
(g) atal a rheoli gwendidau megis brathu cynffon.

Dylai'r cynllun iechyd a lles sicrhau bod anifeiliaid yn cael unrhyw driniaeth feddygol angenrheidiol ar yr amser cywir ac yn ôl y dogn cywir.

### Biodiogelwch

23. Ystyr biodiogelwch yw lleihau'r risg y byddai afiechyd yn digwydd neu'n cael ei wasgaru i anifeiliaid eraill. Gellir cael biodiogelwch da drwy:

- rheoli/hwsmonaeth da;
- glanweithdra da;
- lleihau'r straen yn y genfaint;
- systemau rheoli clefydau effeithiol, megis rhaglenni brechu a dilyngyru.

Mae biodiogelwch yn arwain at:

- cadw unedau fferm yn ddiogel rhag bod clefydau heintus yn cael eu cyflwyno; a
- lleiafu ymlediad unrhyw glefydau ar yr uned.

Os byddwch chi a'ch ceidwaid stoc yn cymryd rhagofalon priodol pan fyddwch yn symud o fewn y fferm neu pan fyddwch yn symud anifeiliaid a chyfarpar, gallwch leihau'n fawr y cyfle i unrhyw glefyd ymledu.

24. Mae stoc sy'n dod i mewn yn peri'r risg mwyaf i iechyd y genfaint o ran clefyd heintus. Dylech ofyn i'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth i chi am statws iechyd y genfaint a brechiadau rheolaidd y genfaint a thriniaethau (e.e. cael gwared â llyngyr) neu fesurau atal clefydau eraill. Dylech gael cyfleusterau ynysu fel bod modd i chi ynysu a gwylio/ profi stoc sy'n dod i mewn am gyfnod priodol pan fyddant yn cyrraedd, cyn iddynt ymuno â gweddill y genfaint.

25. Dim ond ymwelwyr hanfodol y dylid caniatáu iddynt fynd i mewn i'r uned a dylent ddilyn gweithdrefnau diheintio a gwisgo dillad ac esgidiau'r uned. Dylid darparu llyfr ymwelwyr a gofyn i ymwelwyr lofnodi i ddweud nad ydynt wedi bod wrth ymyl moch neu dda byw eraill am gyfnod y cytunwyd arno, fel a bennir yng nghynllun iechyd a lles eich cenfaint. Dylid darparu system i dynnu sylw staff pan fydd ymwelwyr wrth y llidiart.

26. Dylai cyfleusterau llwytho ac, os yw'n bosibl biniau bwyd, gael eu lleoli wrth y terfyn allanol. Dylid cadw cerbydau sy'n ymweld ag unedau moch eraill i ffwrdd o'r uned lle bynnag y bo'n bosibl ond os yw'n hanfodol iddynt fynd i mewn, dylid glanhau a diheintio'r olwynion ac esigidau yn drylwyr gyntaf.

27. Dylai rhaglen rheoli plâu, er enghraifft,cnofilod fod wedi'i sefydlu. Dylid gwneud pob ymdrech i ddiogelu adeiladau rhag adar, megis drudwennod. Dylid rhwystro anifeiliaid anwes, cathod lledwyllt ac anifeiliaid gwyllt eraill.

28. Nid yw'n bosibl atal pob heintiad hedegog rhag dod i mewn i uned ond, wrth gynllunio unedau newydd, dylid eu lleoli mor bell ag sy'n ymarferol oddi wrth unedau moch eraill gan y byddai hynny'n lleihau'r perygl o ledu clefydau heintus hedegog. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar fiodiogelwch, yn enwedig glanhau a diheintio, ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.cymru.gov.uk) a thaflen Llywodraeth Cynulliad Cymru "mae Bioddiogelwch Gwel…".

**Sgorio lwr**

29. Gall sgorio cyflwr y corff gyfrannu'n fawr at hwsmonaeth dda a helpu i osgoi problemau lles costus. Mae sgorio cyflwr yn dechneg hawdd i'w dysgu. Yn y bôn, mae'n golygu y gallwch asesu'n gyflym adnoddau wrth gefn cyrff (h.y. braster) anifeiliaid unigol. Bydd y dechneg o fantais i'r genfaint os ydych yn ei defnyddio fel offeryn rheoli rheolaidd i edrych a yw corff pob hwch yn y cyflwr cywir ar gyfer y gwahanol rhannau o'r cylchred fridio. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar :

(a) canol y cyfnod beichiogi;
(b) adeg porchella/llaetha cynnar; ac
(c) adeg diddwyn/mynd yn hesb.

Dylech addasu'r drefn fwydo yn ôl yr angen ar gyfer anifeiliaid sydd wedi mynd rhy dew neu'n rhy denau. Cewch fwy o wybodaeth yn llyfryn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef "Condition scoring of pigs" (gweler yr atodiad).

## Cloffni

30. Mae cloffni mewn unrhyw anifail yn arwydd fel arfer ei fod mewn poen. Mae cloffni mewn moch yn arwydd o afiechyd ac anghysur. Mae'n amlwg ei fod yn effeithio ar les anifail, yn ogystal ag ar ei berfformiad a'i gynhyrchiad. Os oes cloffni difrifol ar ganran sylweddol o'ch moch, mae hyn yn arwydd o glefyd neu safonau lles cyffredinol gwael yn y genfaint. O dan yr amgylchiadau hyn, dylech geisio cael cyngor milfeddygol ar frys. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn llyfryn DEFRA, sef "Lameness in pigs" (gweler yr atodiad).

31. Os nad yw moch cloff yn ymateb i driniaeth, mae angen i chi alw milfeddyg ar unwaith. Gall nifer o bethau achosi cloffni a bydd diagnosis cynnar a chywir o'r math penodol o gloffni sy'n effeithio ar y genfaint yn eich galluogi i gymryd camau cyflym a phriodol.

32. Os nad yw anifail cloff yn ymateb i driniaeth y milfeddyg, dylech drefnu iddo gael ei gwlio yn hytrach na'i adael i ddioddef. Os nad oes modd cludo anifeiliaid cloff heb achosi mwy o boen iddynt, dylech eu cigydda ar y fferm (gweler paragraffau 40-42). Hefyd, rhaid i chi beidio â chludo unrhyw fochyn nad yw'n gallu sefyll heb gymorth ac nad yw'n gallu dwyn ei bwysau yn gyfartal ar ei bedair coes pan yw'n sefyll neu'n cerdded.

## Parasitiaid allanol

33. Dylech reoli clefydau sy'n cael eu hachosi gan barasitiaid allanol – yn enwedig pan fydd croen yr anifail wedi'i llidio a bod yr anifail yn rhwbio'r fan – â pharasitleiddiaid priodol. Dylech drin eich anifeiliaid ar gyfer parasitiaid yn unol â chyngor milfeddyol a sicrhau bod cyfundrefnau rheoli a thrin yn rhan o gynllun iechyd a lles eich cenfaint.

## Parasitiaid mewnol

34. Dylech reoli parasitiaid mewnol drwy ddefnyddio moddion gwrthlyngyrol neu frechlynnau effeithiol. Fel rhan o gynllun iechyd a lles eich cenfaint, dylech sicrhau bod y driniaeth yn cael ei seilio ar gylchred fywyd y parasitiaid penodol yr ydych yn mynd i'r afael â hwy. Dylech drin eich anifeiliaid ar gyfer parasitiaid yn unol â chyngor milfeddygol. Dylai cynhyrchwyr organig yn benodol geisio cael cyngor milfeddygol ar yr agwedd hon ar gynllun iechyd a lles eu cenfaint.

## Cyfarpar ar gyfer brechu a rhoi triniaeth

35. Dylech sicrhau bod yr holl gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer brechu'r anifeiliaid a rhoi triniaeth iddynt mewn cyflwr da. Dylech lanhau a sterileiddio'n rheolaidd unrhyw gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer chwistrellu, i osgoi heintiadau a chrawniadau ac, yn ddelfrydol, dylech

ddefnyddio nodwyddau tafladwy. Dylai unrhyw bethau peryglus gael eu gwaredu'n ddiogel.

**Clefydau hysbysadwy**

36. **Os ydych yn amau bod unrhyw anifail yn dioddef gan glefyd hysbysadwy, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i hysbysu un o Reolwyr Milfeddygol Rhanbarthol (DVM) o'ch Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol cyn gynted â phosibl.**

37. Y canlynol yw'r prif glefydau hysbysadwy sy'n effeithio ar foch (sylwch nad yw hon yn rhestr gyflawn):

| | |
|---|---|
| Twymyn y moch | Y gynddaredd |
| Anthracs | Clefyd pothellog moch |
| Clefyd Aujeszky | Clefyd Teschen |
| Twymyn glasurol y moch | Llid pothellog y genau |
| Clwy'r traed a'r genau | |

Am fwy ow ybodaeth am y clefydau hyn, cysylltwch a'ch milfeddyg neu Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol.

**Anifeiliaid sâl ac anafus**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 5:

Os yw'n ymddangos fod unrhyw anifail yn sâl neu wedi'i anafu:
- rhaid gofalu amdano'n briodol heb oedi; ac
- os nad yw'n ymateb i'r gofal hwnnw, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted â posibl.

Diwygioddl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6 o Reoliadau 2001. Yn ôl Rhan II, paragraff 3:

Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

38. Dylech gymryd camau ar unwaith os oes unrhyw foch yn anafus neu os yw'n ymddangos eu bod yn sâl neu'n ofidus. Mae'n bwysig cau allan y posibilrwydd o glefydau hysbysadwy. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn ag achos yr afiechyd neu'r driniaeth fwyaf effeithiol, gofynnwch i'ch milfeddyg yn ddi-oed. Yn yr un modd, os nad yw anifail yr ydych wedi'i drin yn ymateb i driniaeth, ceisiwch gael cyngor eich milfeddyg.

39. Dylai'ch cynllun iechyd a lles bennu gweithdrefn ar gyfer ynysu anifeiliaid sâl neu anafus a gofalu amdanynt. Dylai corlannau ysbyty fod ar gael ar gyfer pob categori o fochyn yn yr uned. Dylai fod yn hawdd mynd at y corlannau hyn fel bod modd edrych ar yr anifail yn rheolaidd. Pan fyddwch yn symud mochyn sâl neu anafus yn y corlannau ysbyty, dylech wneud yn siwr nad yw'n dioddef

yn ddiangen. Yn y corlannau ysbyt hyn, dylech wneud yn siwr fod dŵr yfed ar gael yn gyson, ac fod yno gyfleusterau bwydo. Mae angen gofal penodol pan fydd anifeiliaid gorweddol yn cael eu hynysu er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd iddynt fynd at y dŵr a'r bwyd a bod yr anifeiliaid yn bwyta ac yn yfed.

40. Os nad yw anifail an-ffit yn ymateb i driniaeth, dylid ei gwlio neu ei ladd yn dosturiol ar y fferm (cwlio). Dylech gwlio unrhyw anifeiliaid sy'n dioddef gan gyflyrau poenus a/neu anwelladwy ar unwaith.

Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 (O.S. 1997 Rhif 1480), Erthyglau 4(1) a 6 yn ôl eu trefn, yn darparu fel a ganlyn:

- ni chaiff neb gludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi neu sy'n debyg o achosi anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.
- ni chaiff neb gludo unrhyw anifail oni bai:
- ei fod yn ffit ar gyfer y siwrnai arfaethedig; a
- bod darpariaeth addas wedi'i gwneud i ofalu amdano yn ystod y siwrnai a phan fydd yn cyrraedd y gyrchfan.

At y dibenion hyn, rhaid peidio ag ystyried bod anifail yn ffit ar gyfer y siwrnai arfaethedig os yw'n sâl, wedi'i anafu, yn eiddil neu wedi blino, oni bai mai mân anaf, mân salwch, mân eiddilwch neu fân flinder yw hwnnw ac nad yw'r siwrnai arfaethedig yn debyg o achosi dioddefaint diangen, os yw'n debyg o beri iddo esgor wrth gael ei gludo, os yw wedi esgor yn ystod y 48 awr flaenorol neu os yw'n anifail newydd-anedig nad yw ei fogail wedi iachau'n llwyr.

41. **Dim ond** os ydych yn mynd ag anifail an-ffit i filfeddyg ar gyfer triniaeth neu ddiagnosis, neu i'r man cigydda agosaf sydd ar gael y cewch ei gludo – ac yna, ddim ond ar yr amod eu bod yn annhebyg o ddioddef yn ddiangen yn ystod y daith oherwydd eu hanffitrwydd. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn llyfryn DEFRA, sef "Guidance on the transport of casualty farm animals" (gweler yr atodiad).

42. Mewn argyfwng, efallai y bydd rhaid i chi gigydda anifail ar unwaith i'w atal rhag dioddef. Mewn achosion o'r fath, dylech ddifa'r anifail yn dosturiol ac, os yw'n bosibl, dylai hynny gael ei wneud gan rywun sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn gymwys i ddefnyddio dulliau cigydda a defnyddio'r cyfarpar. O dan amgylchiadau argyfwng nid oes angen trwydded cigydda.

Mae'n dramgwydd cyffredinol o dan Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 (O.S. 1995 Rhif 731) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999 Rhif 400), i beri neu ganiatáu unrhyw gyffro, poen neu ddioddefaint y gellid ei osgoi i unrhyw anifail wrth ei gigydda neu ei ladd (rheoliad 4(1)).

Mae'r tramgwydd cyffredinol yn gymwys ym mhob achos, ond nid yw'r darpariaethau manwl mewn perthynas â'r dull cigydda neu ladd yn gymwys pan fydd rhaid i anifail gael ei ladd ar unwaith am resymau argyfwng (rheoliad 13(2)).

43. Os oes rhaid i chi gigydda'r anifeiliaid ar y fferm mewn sefyllfa nad yw'n argyfwng, rhaid i chi wneud hynny drwy ddefnyddio dull a ganiateir sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol ynglŷn â lles wrth gigydda (gweler y blwch isod).

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 (O. S. 1995 Rhif 731) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999 Rhif 400), os yw anifail yn cael ei gigydda neu ei ladd ar y fferm, rhaid gwneud hyn drwy ddefnyddio dull a ganiateir. Gallai'r anifail:

- gael ei barlysu drwy ddefnyddio pistol bollt gaeth, parlysydd cyfergydiol neu barlysydd trydanol a rhaid dilyn hynny â gwaedu – neu bithio – yn ddi-oed (rheoliad 14 ac Atodlenni 5 (Rhan II) a 6). Os yw'r anifail yn cael ei barlysu a'i waedu, rhaid i'r weithred gael ei chyflawni gan gigyddydd sydd wedi'i drwyddedu ar gyfer y gweithrediadau hyn (Atodlen 1), oni bai bod y perchennog yn cigydda anifail i'w fwyta ei hun; neu
- gael ei ladd â bwled rhydd (rheoliad 15) ac Atodlen 5 Rhan III).

44. Ar ôl ei gigydda, rhaid i chi waredu'r carcas drwy ddefnyddio dull addas (gweler y blwch isod).

Mae Gorchymyn Sgil-cynhyrchion Anifeiliaid 1999 (O.S. 1999 Rhif 646), Erthygl 5, yn ei gwneud yn ofynnol bod stoc lladdedig yn cael eu gwaredu drwy'r dulliau canlynol:

- eu hanfon i iard nacer, cynel hela neu safle tebyg;
- hylosgi;
- rendro; neu
- o dan amgylchiadau penodol, claddu yn y fath fodd na fyddai'n bosibl i anifeiliaid cigysol fynd at y carcas, neu losgi.

Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i waredu perchyll marw-anedig a ffetysau, yn ogystal â moch hŷn.

Mae Deddfau Cŵn 1906-28 yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn dramgwydd i berson ganiatáu'n fwriadol i garcas aros heb ei gladdu mewn lle y gallai cŵn fynd ato.

Ar hyn o bryd, dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y caniateir claddu neu losgi. Os ydych yn bwriadu claddu'r carcas ar y fferm, dylech sicrhau yn gyntaf fod yr awdurdod lleol yn caniatáu hyn o dan Orchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (O.S. 1999 Rhif 646). Er hynny, o 2003 ymlaen, bydd deddfwriaeth newydd yr UE, y Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, yn gwahardd claddu carcasau anifeiliaid ar y fferm fel arfer.

**Cadw cofnodion**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 7:
Rhaid cadw cofnod -

(a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roir i anifeiliaid; a

(b) o’r nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o’r anifeiliaid a wneir yn unol ag unrhyw un o’r darpariaethau canlynol.

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 8:

- Rhaid cadw’r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o’r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, yn ôl fel y digwydd, a rhaid trefnu ei fod ar gael i berson awdurdodedig tra bydd wrthi’n archwwilio neu pan fydd person o’r fath yn gofyn amdano fel arall.

45. Dim ond cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol awdurdodedig y dylid eu defnyddio. Rhaid i chi gadw cofnodion llawn o’r holl feddyginiaethau sy’n cael eu defnyddio, gan gynnwys ym mha le y’u prynwyd. Rhaid i chi gadw cofnodion o’r canlynol am dair blynedd o leiaf:

- y dyddiad y gwnaethoch drin yr anifeiliaid;
- pa feddyginiaeth a ddefnyddiwyd a faint ohoni;
- a pha anifail neu grŵp o anifeiliaid y gwnaethoch ei drin.

Mae’n ofynnol o dan Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio ar gyfer Gweddillon a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997 (O.S 1997 Rhif 1729), Rhan V, paragraff 32, i chi gadw cofnod o’r canlynol:

Enw a chyfeiriad cyflenwr y cynnyrch meddyginaethol milfeddygol.

Fe gewch rhagor o wybodaeth yn y Cod Ymarfer ar ddefnyddio meddyginiaethau anifeiliaid ar y fferm mewn modd cyfrifol (gweler yr atodiad).

46. Yn nhermau rheoli anifail unigol, fe allech ei chael yn ddefnyddiol i gadw confnod o bob achos unigol o fastitis, cloffni  anhwylder, ac, os yw’n briodol, y driniaeth berthnasol a roddwyd gennych.

**<u>Llety</u>**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 6 a 7:

6(1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

(2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn -

(a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;
(b) cael lle glân, cysurus sydd wedi'i draenio'n ddigonol y gall orffwyso ynddo;
(c) gweld moch eraill, onid yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol;
(ch) gadw ei dymheredd yn un cysurus; a
(d) cael digon o le i ganiatáu i'r holl anifeiliaid orwedd yr un pryd.

7(1) Rhaid i faintioli unrhyw gôr neu gorlan a ddefnyddir ar gyfer cadw moch unigol yn unol â'r Rheoliadau hyn fod o'r fath nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi'i sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ym mhob achos mae hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bydd yn sefyll gyda'i gefn yn syth.

(2) Ni fydd paragraff 7(1) yn gymwys mewn perthynas â mochyn benyw am y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod y byddai'n porchella yn ôl y disgwyl a'r diwrnod y byddai'n diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y byddai'n eu maethu), wedi'i gwblhau.

**Cyffredinol**

47. Dylech geisio cael cyngor lles priodol pan fwriedir codi adeiladau newydd neu addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes. Mae rhai adeiladau arbenigol yn fannau lle mae cyfarpar mecanyddol a thrydanol cymhleth yn cael ei ddefnyddio a'r rheini'n gofyn am fedrau technegol a rheoli a gall alw am hyfforddiant i sicrhau bod gofynion hwsmonaeth a lles yn cael eu bodloni.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraffau 11 a 12:

- rhaid i'r deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad â hwy, beidio â bod yn niweidiol iddynt a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.

- rhaid i'r adeiladau a'r ffitiadau ar gyfer sicrhau anifeiliaid gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw fel nad oes ymylon nac allwthiadau llym yn debygol o beri anaf iddynt.

48. Dylai wynebau mewnol adeiladau a chorlannau fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau y mae modd i chi eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd, a'u hamnewid yn rhwydd yn ôl yr angen.

49. Os ydych am drin yr wynebau hyn, dylech ddefnyddio paent neu gadwolyn sy'n ddiogel i'w ddefnyddio gydag anifeiliaid. Mae yna risg o wenwyn o hen baentwaith, yn enwedig os ydych yn defnyddio deunyddiau adeiladu ail law.

**Lloriau**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif. ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 12 a 13:

Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r lloriau -

- (a) fod yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r moch;
- (b) gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn y fath fodd ag i beidio â pheri anaf na dioddefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;
- (c) fod yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac
- (ch) os nad oes unrhyw laesodr yn cael ei ddarparu, ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

Pan fydd lloriau estyll concrit yn cael eu defnyddio ar gyfer moch sy'n cael eu cadw mewn grwpiau, rhaid i led uchaf yr agoriadau fod yn:

- (a) 11 mm ar gyfer perchyll;
- (b) 14 mm ar gyfer perchyll diddwyn;
- (c) 18 mm ar gyfer moch magu;
- (ch) 20 mm ar gyfer banwesi ar ôl serfio a hychod.

Rhaid i led isaf estyll fod yn;

- (d) 50 mm ar gyfer perchyll a pherchyll diddwyn;
- (dd) 80 mm ar gyfer moch magu, banwesi ar ôl serfio a hychod.

50. Mae'n hanfodol dylunio lloriau yn dda a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol. Mae lloriau sydd wedi'u adeiladu'n wael, estyll nad ydynt yn cydweddu'n briodol â phwysau/maint y mochyn a wynebau sydd wedi gwisgo a/neu wedi'u niweidio, yn gallu achosi anaf i draed a choesau moch. Dylid osgoi bylchau gormodol gan y gallant ddal y traed a'r ewinedd a gallant achosi niwed corfforol. Dylai lloriau sydd wedi'u niweidio gael eu hatgyweirio ar unwaith.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 11:

Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

51. Rhaid cadw'r man gorwedd yn sych bob amser a dylid traenio lloriau'r gorlan, gan gynnwys y man tomi, yn effeithiol. Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân ac yn sych, rhaid ychwanegu ato'n rheolaidd neu ei newid, a rhaid iddo beidio â bod yn niweidiol i iechyd y moch.

**Awyru a thymheredd**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 13:

- rhaid i gylchrediad aer, lefalau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i'r anifeiliaid.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 17:

Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd sy'n golygu cynnal tymereddau uchel a lleithder uchel (amgylchedd a elwir y "system flwch-chwysu").

52. Dylai pob adeilad newydd gael ei ddylunio gyda chysur yr anifeiliaid mewn golwg, a chyda'r nod o atal clefydau anadlol. Dylai'r adeiladau ddarparu digon o awyriad drwy gydol y flwyddyn ar gyfer math, maint a nifer y stoc sydd i'w lletya ynddynt. Yn ychwanegol at fodloni'r gofynion awyru, dylai'r system gael ei dylunio i osgoi drafftiau sy'n effeithio ar le byw'r moch.

53. Mae awyriad effeithiol yn hanfodol i lesiant y stoc am ei fod yn darparu aer ffres, yn gwaredu nwyon gwenwynus ac yn helpu i reoli tymheredd. Dylid atal gormod o wres rhag cael ei golli naill ai drwy inswleiddio'r waliau allanol, y to a'r llawr yn y man gorwedd yn strwythurol, neu drwy ddarparu gwasarn digonol. Drwy'r inswleiddiad yn y waliau a'r to cedwir y cynnydd mewn gwres yn yr adeiladau yn ystod tywydd poeth i'r lleiaf posibl.

54. Nid oes gan foch fawr o allu i chwysu o gwbl ac maent yn hynod o dueddol o ddioddef gan straen gwres. Mae dulliau oeri posibl gan gynnwys chwythu aer dros y moch mewn rhan o'r gorlan, darparu systemau chwistrellu/tawchu dŵr neu wlychu rhan o'r llawr â phiben ddŵr, yn fodd i sicrhau nad yw moch mewn adeiladau yn mynd yn rhy boeth mewn tywydd poeth. Dylai fod rhyw fan gorwedd sych ar gael bob amser fel mater o ddewis fel bod modd i'r moch symud o'r amodau oerach.

55. Mae pwysau byw, maint y grŵp, y math o lawr, cyflymder yr aer a'r cymeriant bwyd yn effeithio'n sylweddol ar y gofynion tymheredd a rhaid i chi gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth benderfynu'r tymheredd lleiaf sy'n briodol ym mhob achos. Yn gyffredinol mae lloriau estyll a lefelau bwydo isel yn cynyddu'r gofynion tymheredd tra bod gwasarn gwellt, lefelau uchel o fwyd a phwysau corff uwch yn lleihau'r gofynion. Ran amlaf, mae modd dod o hyd i dymheredd priodol o fewn yr amrediad a geir isod:

| Categori Mochyn | Tymheredd | |
|---|---|---|
| | (°C) | (°F) |
| Hychod | 15 - 20 | 59 - 68 |
| Moch sugno mewn blaen-fwydwyr | 25 - 30 | 77 – 84 |
| Moch diddwyn (3 – 4 wythnos) | 27 - 32 | 81 – 90 |
| Moch sy'n cael eu diddwyn yn ddiweddarach | 24 - 29 | 75 – 84 |

| | | |
|---|---|---|
| Moch pesgi (pyrc) | 15 - 21 | 59 – 70 |
| Moch pesgi (moch bacwn) | 13 - 18 | 55 – 64 |

56. Dylech osgoi amrywiadau eang neu sydyn mewn tymheredd mewn systemau adeiladau o fewn unrhyw gyfnod o 24 awr. Gall amrywiadau eang yng nghyfundrefn y tymheredd dyddiol achosi straen sy'n gallu ysgogi pyliau o wendidau, megis brathu cynffonnau, neu glefyd megis llid yr ysgyfaint. Dylech fod yn fwy gwyliadwrus nag arfer ar yr adegau hyn.

57. Pan fydd moch yn cael eu symud i adeilad newydd, dylid lleihau'r posibilrwydd y bydd straen oerfel yn digwydd o ganlyniad i newidiadau sydyn yn yr amgylchedd thermol. Gellir gwneud hyn drwy ddarparu gwasarn, megis gwellt, neu drwy gynhesu'r adeilad ymlaen llaw.

58. Pan fyddwch yn symud slyri oddi tan estyll, rhaid i chi gymryd gofal arbennig i beidio ag amhuro'r aer â nwyon peryglus (megis amonia), sy'n gallu lladd pobl ac anifeiliaid ill dau. Dylai adeiladau fod naill ai'n wag neu dylent gael eu hawyru'n dda iawn yn ystod y weithdrefn hon.

**Golau a lefelau sŵn**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraffau 3 ac 16:

3. pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

16. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys heb olau artiffisial.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 8 a 18:

8. Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial, yna, rhaid darparu golau y mae ei ddwysedd yn 40 lux o leiaf am gyfnod o 8 awr y dydd o leiaf yn ddarostyngedig i baragraff 16 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn. [gweler y bocs uchod]

18. Rhaid peidio â rhoi moch mewn sefyllfa lle maent yn agored i sŵn cyson neu sydyn. Rhaid osgoi lefelau sŵn uwchlaw 85 dBA yn y rhan honno o unrhyw adeilad lle mae moch yn cael eu cadw.

59. Dylai fod gennych ddigon o oleuadau sefydlog neu symudol ar gael ar unrhyw bryd os oes angen i chi arolygu unrhyw anifeiliaid, er enghraifft, yn ystod cyfnod porchella.

60. Dylai lleoliad peiriannau megis unedau malu bwyd fod yn briodol er mwyn cadw effaith sŵn ar stoc mewn adeiladau i'r lleiaf posibl. Dylai unrhyw

gloch neu seiniwr sy'n debyg o ganu'n ddi-drefn, er enghraifft pan fydd ymwelydd yn dod i'r safle, fod yn ddigon uchel i ddenu sylw pobl ond heb achosi gormod o fraw i'r stoc.

**Cyfarpar awtomataidd a mecanyddol**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraffau 18 – 21:

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.

19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff uchod, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.

20. Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial -
(a) rhaid darparu ar gyfer system wrth-gefn briodol i warantu digon o adnewyddu aer i gadw iechyd a llesiant yr anifeiliaid os digwydd i'r system fethu; a
(b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21 Rhaid i'r system wrth-gefn gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg yn y system ac, os canfyddir unrhyw ddiffyg (adeg archwilio neu brofi'r system yn unol â'r paragraff hwn neu ar unrhyw adeg arall) rhaid ei gywiro ar unwaith.

61. Dylai pob cyfarpar trydan prif-gyflenwad fod wedi'i ddaearu'n iawn, wedi'i ddiogelu rhag cnofilod ac allan o gyrraedd y moch.

62. Dylai pob cyfarpar, gan gynnwys hopranau bwyd, yfwyr, cyfarpar awyru, unedau gwresogi a goleuo, diffoddyddion tân a systemau larwm, gael ei lanhau a'i arolygu'n rheolaidd a'i gadw mewn cyflwr da.

63 Dylai pob cyfarpar awtomataidd sy'n cael ei ddefnyddio mewn systemau dwys gael ei arolygu'n drylwyr gan geidwad y stoc, neu berson cymwys arall, heb fod yn llai nag unwaith y dydd i wirio nad oes unrhyw ddiffygion. Rhaid cywiro unrhyw ddiffyg ar unwaith.

**Rhagofalon tân a rhagofalon brys eraill**

64. Dylai cynlluniau fod wedi'u sefydlu i ymdrin ag argyfyngau ar eich fferm, megis tân, llifogydd neu amhariad ar gyflenwadau. Dylai'r perchennog sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r camau priodol i'w cymryd mewn argyfwng.

Cewch ragor o wybodaeth yn llyfrynau Cynulliad Cenedlaethol Cymru , “Emergencies on livestock farms” a “Farm fires: advice on farm animal welfare” (gweler yr atodiad).

65. Mae’n bwysig eich bod yn cael cyngor ynglŷn â dylunio pan fyddwch yn adeiladu neu’n addasu adeilad. Mae angen i chi fedru rhyddhau da byw a’u symud allan yn gyflym os oes argyfwng. Dylech ystyried gosod larymau tân y mae modd eu clywed ac ymateb iddynt ar unrhyw adeg o’r dydd neu’r nos.

66. Gallwch gael cyngor arbenigol ar bob rhagofal tân oddi wrth swyddogion atal tân eich brigâd dân leol ac oddi wrth y Gymdeithas Atal Tân.

**Bwyd, dŵr a sylweddau eraill**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraffau 22 – 24 a 26:

22 Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachus sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i fodloni eu hanghenion maethiadol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.

23 Rhaid peidio â rhoi bwyd neu ddiod i unrhyw anifail mewn modd, a rhaid i'r bwyd neu'r ddiod honno beidio â chynnwys unrhyw sylwedd, a all beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

24. Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fydd milfeddyg yn gweithredu wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.

26. Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr ac effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anfeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 14:

14 (1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan fydd grŵp o foch yn cael eu cadw mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad ydynt yn cael eu bwydo drwy system fwydo awtomatig, sy'n bwydo'r anifeiliaid fesul unigolyn, rhaid bod modd i bob mochyn fynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

67. Mae angen deiet dyddiol cytbwys ar bob mochyn i gynnal iechyd a bywiogrwydd llawn. Dylech gynllunio unrhyw newidiadau i'r deiet a'u cyflwyno'n raddol.

68. Wrth gyflwyno moch i adeiladau anghyfarwydd, dylech sicrhau bod yr anifeiliaid yn gallu dod o hyd i'r mannau bwydo a dyfrio. Pan fydd perchyll sydd newydd eu diddyfnu yn cael eu symud i gorlannau lle mae dŵr yn cael ei ddarparu drwy bigynnau dŵr sy'n anghyfarwydd i'r perchyll, mae'n arfer da darparu pigynnau dŵr y mae modd mynd atynt yn rhwydd am y diwrnodau cyntaf.

69. Pan fydd moch yn cael eu bwydo ar lefel bwyd sydd wedi'i ddogni i reoli cymeriant, dylech sicrhau bod cafn â digon o le yn cael ei ddarparu i sicrhau bod pob mochyn yn gallu cael ei gyfran. Mae'r canllawiau canlynol ar gyfer lle cafn fesul mochyn yn gymwys:

| PWYSAU'R MOCHYN (KG) | LLE CAFN (CM) |
|---|---|
| 5 | 10 |
| 10 | 13 |
| 15 | 15 |
| 35 | 20 |
| 60 | 23 |
| 90 | 28 |
| 120 | 30 |

70. Mae hylendid da yn angenrheidiol ar gyfer systemau storio a bwydo am fod llwydni yn gallu datblygu mewn hen fwyd a all gael effaith niweidiol ar foch. Dylai biniau bwyd gael eu glanhau'n rheolaidd.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 15:

Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn dros ddwy wythnos oed gael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd.

71. Mae nifer o ffactorau y dylech eu hystyried wrth edrych ar ddarparu dŵr i foch:

- y cyfaint cyfan sydd ar gael;
- cyfradd y llif (ni fydd moch yn treulio amser maith wrth gymryd dŵr);
- dull ei ddarparu e.e. y math o yfwr;
- ei hygyrchedd i'r holl stoc.

72. Mae'r canlynol yn arweiniad i leiafswm y gofynion dyddiol ynglŷn â dŵr ar gyfer moch o wahanol bwysau:

| **Pwysau'r mochyn (kg)** | **Y gofyniad dyddiol (litrau)** | **Isafswm cyfradd y llif drwy'r pigynnau dŵr (litrau/munud)** |
|---|---|---|
| Newydd ei ddiddyfnu | 1.0 – 1.5 | 0.3 |
| Hyd at 20 kg | 1.5 – 2.0 | 0.5 – 1.0 |
| 20 kg – 40 kg | 2.0 – 5.0 | 1.0 – 1.5 |
| Moch pesgi hyd at 100 kg | 5.0 – 6.0 | 1.0 – 1.5 |
| Hychod a banwesi – cyn serfio a rhai torrog | 5.0 – 8.0 | 2.0 |
| Hychod a banwesi – sy'n llaetha | 15 – 30 | 2.0 |
| Baeddod | 5.0 – 8.0 | 2.0 |

73. Gall dŵr gwastraff a chyfraddau llif gormodol fod yn niweidiol, yn enwedig i hychod mewn llety porchella a pherchyll ifanc iawn.

74. Dylech ystyried yn ofalus ar ba uchder y dylid rhoi pigynnau a phowlenni dŵr. Rhaid bod modd i bob mochyn fynd at y man yfed, felly gallai hynny olygu

bod angen addasu'r uchder, neu ddarparu nifer o wahanol bigynnau ar wahanol uchderau pan fydd grwpiau o foch y mae eu pwysau yn amrywio yn cael eu lletya gyda'i gilydd neu pan fydd moch yn cael eu lletya mewn corlan am gyfnod maith.

75. Pan fydd pigynnau dŵr yn cael eu defnyddio, dylai fod man yfed ar gael ar gyfer pob deg mochyn sy'n cael bwyd wedi'i ddogni. Os na chyfyngir ar y bwyd, dylai un pigyn dŵr ddarparu cyflenwad digonol i 15 mochyn o dderbyn bod cyfraddau'r llif yn ddigonol. Pan fydd systemau cafn yn cael eu defnyddio, dylid cymwyso'r canllawiau canlynol:

| **PWYSAU'R MOCHYN (KG)** | **LLE CAFN FESUL PEN (CM)** |
|---|---|
| Hyd at 15 | 0.8 |
| 15 - 35 | 1.0 |

76. Os ydych yn defnyddio system fwydo wlyb, rhaid bod modd i'r moch gael cyflenwad dŵr ffres ar wahân.

77. Ni ddylid tynnu bwyd a dŵr yn ôl yn llwyr oddi wrth hychod sy'n cael eu hesbio.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 27:

- Rhaid peidio â rhoi unrhyw sylwedd arall, ac eithrio y rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffilactig neu at ddibenion triniaeth söotechnegol i anifeilaid oni ddangoswyd gan astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu gan brofiad cynefin nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeilaid.

## Rheoli

### Cyffredinol

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 17:

- Rhaid i anifeiliaid na chedwir mohonynt mewn adeiladau, pan fo angen a phan fo'n bosibl, gael eu hamddiffyn rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd a chael y cael y cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, rhan II, paragraff 10:

(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, cyfarpar a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.
(2) Rhaid i ysgarthion, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael ei symud cyn amled ag y mae'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r aroglau ac osgoi denu pryfed neu gnofilod.

78. Dylid cadw pob adeilad, cae a phadog yn glir o falurion, megis weiar, plastig a phethau miniog, a allai anafu'r moch neu rwygo ymaith eu tagiau clust a niweidio eu clustiau.

79. Dylech gymeryd pob mesur ymarferol i symud pob mochyn o ardaloedd sydd mewn perygl agos o gael eu gorlifo.

### Cyfoethogi'r amgylchedd

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 16:

Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn fynd at gyflenwad digonol o ddeunyddiau megis gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath, i alluogi gweithgareddau ymchwilio a thrafod priodol.

80. Mae cyfoethogi'r amgylchedd yn darparu cyfle i foch dyrchu, archwilio, cnoi a chwarae. Mae gwellt yn ddeunydd ardderchog ar gyfer cyfoethogi'r amgylchedd am ei fod yn gallu diwallu llawer o anghenion ymddygiadol a chorfforol y moch. Mae'n darparu deunydd ffibrog y gall y mochyn ei fwyta; mae'r mochyn yn gallu tyrchu mewn gwellt hir a chwarae gydag ef; a phan fydd yn cael ei ddefnyddio fel gwasarn, gall gwellt ddarparu'r cysur corfforol a thermol i'r mochyn.

81. Mae pethau megis cadwyni a pheli troed yn gallu diwallu anghenion ymddygiadol y moch er bod eu newydd-deb yn pylu'n gyflym. Nid argymhellir

defnydd hir-dymor ar eitemau o'r fath, felly. Dim ond ar y cyd â deunyddiau megis y rhai sydd wedi'u rhestru yn y blwch uchod, neu os cânt eu newid yn wythnosol, yr argymhellir defnyddio pethau o'r fath.

## Disbaddu

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 22 a 23(2):

22. Caniateir disbaddu moch gwryw ar yr amod na fydd y dull a ddefnyddir yn golygu rhwygo meinweoedd.

23.(2) Os yw disbaddu yn cael ei wneud ar ôl y seithfed diwrnod ym mywyd y mochyn, rhaid peidio â'i gyflawni ond o dan anesthetig ac analgesia estynedig ychwangeol gan filfeddyg.

82. Dylai ceidwaid stoc bwyso a mesur yn ofalus a yw disbaddu'n angenrheidiol. Mae disbaddu yn llurguniad a dylid ei osgoi lle bynnag y bo'n bosibl. Os nad oes modd ei osgoi, rhaid iddo gael ei wneud yn unol â'r gyfraith gan filfeddyg neu weithredydd cymwys hyfforddedig.

## Tocio cynffonnau

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraffau 21 a 23:

21. Rhaid peidio â chaniatáu defnyddio'r gweithdrefnau canynol fel rhan o'r drefn ac eithrio pan fydd tystioliaeth bod anafiadau i dethi hychod neu i'r glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi digwydd;

(b) tocio rhan o'r gynffon;

ond ni chaniateir tocio cynffonnau oni bai bod mesurau eraill i wella amodau amgylcheddol neu systemau rheoli wedi'u cymryd er mwyn atal brathu cynffonnau neu wendidau eraill.

23.(1) Os yw tocio cynffonnau yn cael ei wneud ar ôl y seithfed diwrnod, rhaid peidio â'i gyflawni ond o dan anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol gan filfeddyg.

83. Mae brathu cynffonnau a gwendidau eraill, megis brathu clustiau ac ystlysau, yn gysylltiedig ar ryw ffurf ar straen. Gellir eu hysgogi drwy ystod eang o ffactorau neu gyfuniad ohonynt, gan gynnwys: gorstocio, diffygion bwyd, lefelau tymheredd anghywir, lefelau tymheredd sy'n amrywio, awyru diffygiol, drafftiau, lefelau uchel o lwch a nwyon gwenwynig (h.y. amonia) a methu â chyfoethogi'r amgylchedd. Gall newidiadau mewn amodau tywydd allanol ysgogi brigiad hefyd weithiau.

84. Os yw brathu cynffonnau yn digwydd, gall ledu'n gyflym drwy'r gorlan a gall graddau'r anafiadau gynyddu'n gyflym iawn. Dylech sicrhau bod moch yr effeithiwyd arnynt yn cael eu symud i gorlan ysbyty â gwasarn a'u bod yn cael eu trin yn ddi-oed. Os yw'n bosibl, dylech geisio canfod yr achoswr a symud yr anifail i gorlan ar wahân.

85. Ni chaniateir tocio cynffonnau fel rhan o'r drefn. Ni chaniateir tocio cynffonnau ond fel cam olaf os ceir bod gwelliannau i amgylchedd y moch a gwelliannau rheoli yn aneffeithiol. Os oes angen tocio cynffon, rhaid iddo gael ei wneud yn unol â'r gyfraith gan weithredydd cymwys hyfforddedig cyn y seithfed dydd ym mywyd yr anifail, neu gan filfeddyg. Rhaid i bob cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gael ei lanhau a'i ddiheintio cyn ymdrin â'r mochyn nesaf.

86. Fel rhan o gynllun iechyd a lles eich buches, dylai fod gennych strategaeth ar gyfer ymdrin â brigiadau gwendidau megis brathu cynffonnau. Er bod llawer wedi'i ddysgu drwy ymchwil a phrofiad ymarferol ar y fferm, nid yw'n bosibl llunio ateb awdurdodol ar gyfer pob achos. Argymhellir asesiad trwyadl ymagwedd gam-wrth-gam felly at ganfod achos penodol brigiad yn eich uned a dod o hyd i'r ateb priodol i'r broblem.

- **Nodwch hyd a lled y broblem**
  Nodwch leoliad y corlannau a nifer y moch yr effeithiwyd arnynt; gwiriwch gofnodion digwyddiadau blaenorol.

- **Rhestrwch yr achosion posibl**
  Gallai hyn gynnwys toriad yn y cyflenwad bwyd neu ddŵr neu gyflenwad annigonol methu â chyfoethogi'r amgylchedd, awyru annigonol, drafftiau, lefelau tymheredd anghywir, gorstocio, cystadlu wrth fwyta, lefelau golau gormodol, lefelau uchel o lwch neu nwyon gwenwynig ayb. Gellir dod o hyd i achosion gwahanol mewn corlannau gwahanol ar yr un uned.

- **Diwygio'r cynlun iechyd a lles**

  wedi nodi lleoedd i wella, dylech ddiwygio'ch cynllun iechyd a lles, gan ymgynghori â milfeddyg y fuches a chynghorwyr technegol eraill, er mwyn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol gydag golwg ar wahardd brechiadau o frathu cynffonau yn y dyfodol.

**Byrhau dannedd**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 21:

Rhaid peidio â chaniatáu defnyddio'r gweithdrefnau canlynol fel rhan o'r drefn ac eithrio pan fydd tystiolaeth bod anafiadau i dethi hychod neu i glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi digwydd:

byrhau cilddannedd perchyll yn unffurf drwy eu rhygnu neu eu clipio heb fod yn hwyrach na'r seithfed diwrnod ym mywyd y perchyll gan adael wyneb llyfn cyfan;

ond ni chaniateir byrhau dannedd oni bai fod mesurau eraill i wella amodau amgylcheddol neu systemau rheoli wedi'u cymryd er mywn atal brathu cynffonnau neu wendidau eraill.

87. Ni chaniateir clipio na rhathellu dannedd fel rhan o'r drefn. Dim ond fel cam olaf y dylid byrhau dannedd cornel uchaf ac isaf perchyll (dannedd "llygad"). Dylai eich cynllun iechyd a lles nodi'r amgylchiadau pan y gallai byrhau dannedd fod yn angenrheidiol. Gallai hyn gynnwys maint y torllwyth, traws-feithrin, banwesi a llaeth gwael am resymau megis mastitus.

88. Pan fydd byrhau dannedd yn digwydd, efallai na fydd bob amser yn angenrheidiol ar gyfer y torllwyth cyfan. Pan fydd ei angen, dylid ei wneud cyn seithfed diwrnod bywyd y mochyn yn unol â'r gyfraith gan weithredydd cymwys hyfforddedig neu filfeddyg. Dylid defnyddio siswrn miniog glân addas neu hogwr percheneogol. Dylai pob cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gael ei lanhau a'i ddiheintio cyn ymdrin â'r mochyn nesaf. Argymhellir defnyddio rhathell dannedd gan fod llai o risg o ddryllio'r dannedd.

**Serfio Naturiol**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 28:

28(1) (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

(2) Ni fydd is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint neu'r anaf lleiaf posibl neu am ennyd neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn peri anaf parhaol.

89. Dylai fod gan bob baedd amodau serfio da a diogel. Nid yw lloriau estyll ac amodau llithrig dan droed yn addas ar gyfer anifeiliaid sy'n paru. Fel rhan o'ch cynllun iechyd a lles, dylech drafod gyda milfeddyg y genfaint sut i osgoi anafu baeddod a hychod drwy ormod o weithgareddau paru.

**Cyfebru artiffisial, fasectomi ac electro-alldaflu**

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 8 (3) yn rhestru esemptiadau penodol rhag y gofyniad bod rhaid i fochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser, gan gynnwys:

at ddibenion serfio, cyfebru artiffisial neu gasglu semen;

ar yr amod nad yw'r cyfnod pan yw'r mochyn yn cael ei gadw felly yn hwy na'r hyn y mae ei angen at y diben hwnnw.

90. Dylech gadw'r hychod yn eu grwpiau tan yr amser cyfebru, pan fydd modd eu symud i gôr neu gorlan briodol a'u cyfebru. Dylid caniatáu amser i hychod ymgynefino â'r côr neu'r gorlan, ac yna eu cyflwyno i faedd er mwyn symbylu'r atgyrch sefyll cyn bod cyfebru artiffisial yn digwydd.

91. Dylid gadael hychod heb darfu arnynt, er mwyn hybu cyfangiadau crothol, am hyd at ddeg munud ar hugain ar ôl y cyfebru artiffisial (a'r serfio naturiol), ond dylent ailymuno â'u grŵp wedyn er mwyn cadw bwlio o fewn hierarchaeth y grŵp i'r lleiaf posibl. Pan ddefnyddir cyfebru dwbl, caniateir corlannu hychod ar wahân hyd 30 munud ar ôl yr ail gyfebru, ond rhaid i'r gorlan ganiatau i'r mochjyn droi o'i gwmpas yn rhwydd.

Mae Deddf Milfeddygon 1966, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Milfeddygon 1966 (Diwygiad Atodlen 3) 1988 (O.S. 1988 Rhif 526) yn gwahardd unrhyw un heblaw milfeddyg rhag cyflawni fasectomi neu electro-alldafliad.

92. Dim ond gweithredydd hyfforddedig, cymwys a phrofiadol a ddylai gyflawni'r dasg o gasglu semen a chyfebru artiffisial. Dim ond milfeddyg a gaiff gyflawni fasectomi neu electro-alldafliad.

## ADRAN 2 – ARGYMHELLION PENODOL

### Hychod porchella a pherchyll

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan IV, paragraffau 31 - 36:

30. Rhaid rhoi triniaeth i fanwesi a hychod torrog, os bydd angen, rhag parasitiaid allanol a mewnol.

31. Os ydynt yn cael eu rhoi mewn cratiau porchella, rhaid i hychod a banwesi torrog gael eu glanhau'n drylwyr.

32. Yn yr wythnos cyn yr amser y disgwylir iddynt borchella rhaid rhoi digon o ddeunydd nythu addas i hychod a banwesi onid yw'n dechnegol annichonol i'r system slyri sy'n cael ei defnyddio.

33. Yn ystod amser porchella, rhaid bod lle dirwystr ar gael y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso porchella yn naturiol neu drwy gymorth.

34. Rhaid i gorlannau porchella lle cedwir hychod yn rhydd gael rhyw fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella.

35. Yn yr wythnos cyn yr amser y disgwylir iddynt borchella ac yn ystod y cyfnod porchella, caniateir i hychod a banwesi gael eu cadw allan o olwg moch eraill.

93. Dylech reoli gwaith bwydo hychod a banwesi yn y fath fodd ag i sicrhau bod cyflwr eu corff yn addas adeg porchella. Dylid anelu at sgôr darged of 3.5 - 4 ychydig cyn yr amser porchella. Dylid addasu'r gyfundrefn fwydo wedyn i gadw unrhyw golled yng nghyflwr y corff yn ystod y cyfnod llaetha i'r lleiaf posibl.

94. Dylid darparu deunydd nythu, lle bynnag y bo'n bosibl, i ddiwallu angen yr hwch i adeiladu nyth ac felly i gadw straen i'r lleiaf posibl.

95. Mae gofynion amgylcheddol yr hwch a'r torllwyth yn dra gwahanol. Mewn adeilad porchella y mae ei amgylchedd yn cael ei reoli dylid darparu man didolborthi sydd wedi'i wresogi – hyd at 32°C – ar gyfer y perchyll. Mae modd gwneud hyn drwy wresogi artiffisial, er enghraifft, lampau isgoch uwchben, pad gwres neu wresogi tan y llawr neu fel arall drwy ddarparu man gorwedd â digon o wasarn. Er hynny, mae gan yr hwch anghenion amgylcheddol gwahanol. Dylai'r tymheredd yn yr ystafell borchella yn ei chyfanrwydd fod yn rhyw 18°C - 20°C. Gall tymereddau uchel i'r hwch amharu ar ei chymeriant bwyd a'i gallu i roi llaeth.

96. Pan ddefnyddir lampau neu wresogyddion uwchben, dylid eu gosod yn gadarn a'u diogelu rhag i'r hwch neu'r perchyll amharu arnynt.

97. Dylai cratiau porchella fod wedi'u hadeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i'r hwch godi a gorwedd eto heb anhawster a dylent fod yn ddigon mawr ar gyfer hynny. Dylech fod yn brofiadol ac yn gymwys yn nhechnegau porchella a dylech roi sylw penodol i hylendid, yn enwedig ar adegau porchella â chymorth. Dim ond gweithredydd hyfforddedig a chymwys a ddylai ddefnyddio cymhorthion porchella mecanyddol.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan V, paragraffau 43 i 47 a pharagraffau 48 i 49:

43. Os bydd angen, rhaid darparu ar gyfer perchyll ffynhonnell gwres a man gorwedd cadarn, sych a chysurus i ffwrdd o'r hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd.

44. Rhaid i ran o'r llawr cyfan lle mae'r perchyll ac sy'n ddigon mawr i ganiatáu i'r anifeiliaid orffwys gyda'i gilydd yr un pryd, fod yn gadarn neu wedi'i gorchuddio â mat neu o dan laesodr gwellt neu unrhyw ddeunydd addas arall.

45. Pan ddefnyddir crât porchella, rhaid i'r perchyll gael digon o le i'w galluogi i sugno heb drafferth.

46. Rhaid peidio â diddyfnu perchyll oddi wrth yr hwch pan fyddant yn llai na thair wythnos oed oni fyddai peidio â gwneud hynny yn effeithio'n andwyol ar les neu iechyd y fam neu'r perchyll.

Caniateir diddyfnu perchyll hyd at saith diwrnod ynghynt os ydynt yn cael eu symud i adeiladau arbenigol sy'n cael eu gwagio a'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr cyn cyflwyno grŵp newydd a'r adeiladau hynny yn rhai ar wahân i'r rhai lle mae moch eraill yn cael eu cadw.

98. Mae problemau sy'n gysylltiedig â diddyfnu yn ymwneud ag oedran diddyfnu. Os yw'r oedran diddyfnu'n gynharach, rhaid i'r system reoli a maethu fod yn well i osgoi problemau lles. Ni ddylid diddyfnu perchyll o'r hwch cyn 28 diwrnod o oed, er fod perchyll amddifad, gwael neu rai dros ben sydd angen sylw arbennig yn eithriadau amlwg. Mae'r drefn pob-un-i-mewn, pob-un-allan, yn dod a'r cyfleoedd mwyaf i rwystro cyflwyno neu wasgaru afiechyd ar uned. os na fydd yr amgylchiadau yma yn bodoli, gall difwyno ddigwydd hyd at saith diwrnod yn gynharach. Wedi difwyno, dylid symud pechyll i lety arbennig sydd cyn hynny wedi ei wagio yn llwyr o foch, ei lanhau a'i ddiheintio.

99. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn gwylio perchyll yn ofalus i weld a oes arwyddion dolur rhydd neu glefyd anadlol, megis pesychu neu anadlu'n gyflym neu gydag anhawster, y gall y ddau ohonynt ymledu'n gyflym. Os nad yw'r perchyll yn ymateb yn brydlon neu'n briodol i driniaeth, dylech geisio cael cyngor milfeddygol.

**Perchyll diddwyn a moch magu**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan V, paragraff 54:

Rhaid i'r arwynebedd llawr dirwystr sydd ar gael i bob porchell diddwyn neu fochyn magu sy'n cael ei fagu mewn grŵp fod o leiaf –

(a) yn 0.15 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn 10 kg neu lai;
(b) yn 0.20 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 10 kg ond yn llai nag 20 kg neu'n hafal i hynny;
(c) yn 0.30 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy nag 20 kg ond yn llai na 30 kg neu'n hafal i hynny;
(ch) yn 0.40 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 30 kg ond yn llai na 50 kg neu'n hafal i hynny;
(d) yn 0.55 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 50 kg ond yn llai na 85 kg neu'n hafal i hynny;
(dd) yn 0.65 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 85 kg ond yn llai na 110 kg neu'n hafal i hynny; ac
(e) yn 1.00 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 110 kg.

100. Y gofynion isaf sydd yn y blwch uchod; gall y math o lety a'i reoli olygu bod anen lwfansau lle mwy. Dylai cyfanswm yr arwynebedd llawr bod yn ddigonol ar gyfer cysgu, bwydo a chael ymarfer. Dylai'r man gorwedd, ac eithrio'r mannau tomi ac ymarfer, fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r holl foch orwedd ar eu hochrau yr un pryd.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan VI, paragraffau 48 i 51:

48. Rhaid rhoi moch mewn grwpiau cyn gynted â phosibl ar ôl eu diddyfnu. Rhaid eu cadw mewn grwpiau sefydlog gyda chyn lleied â phosibl o gymysgu.

49. Os oes rhaid cymysgu moch sy'n anghyfarwydd â'i gilydd, dylid gwneud hynny pan fyddant mor ifanc â phosibl, o ran dewis cyn neu hyd at un wythnos ar ôl diddyfnu. Pan fydd moch yn cael eu cymysgu, rhaid rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddianc a chuddio rhag moch eraill.

50. Rhaid cyfyngu'r defnydd ar feddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu i amodau eithriadol a dim ond ar ôl ymgynghori â milfeddyg.

51. Pan fydd arwyddion ymladd difrifol yn ymddangos, rhaid ymchwilio ar unwaith i'r achosion a rhaid cymryd camau priodol.

101. Dylai cynllun iechyd a lles eich cenfaint gynnwys strategaeth ar gyfer cymysgu a sefydlu grwpiau o foch. Gall digon o le, cyfoethogi'r amgylchedd yn ddigonol a defnyddio chwistrellwyr neu daenellwyr cawod oll helpu i gadw ymosodedd wrth gymysgu i'r lleiaf posibl. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai moch

sydd i'w pesgi fod mewn grwpiau o'r un rhyw i osgoi gweithgaredd rhywiol diangen wrth i fanwesi ddod yn llodig.

**Hychod a banwesi hesb**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan IV, paragraffau 36 i 42:

36. Rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau ac eithrio yn ystod y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod porchella disgwyliedig a'r diwrnod y mae diddyfnu'r perchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll sy'n cael eu maethu) yn cael ei gwblhau.

37. Rhaid bod gan y gorlan lle mae'r grŵp yn cael ei gadw ochrau sy'n fwy na 2.8m eu hyd, ac eithrio pan fydd llai na chwe unigolyn yn y grŵp, ac os felly, rhaid i ochrau'r gorlan beidio â bod yn llai na 2.4m eu hyd.

38. Rhaid i'r arwynebedd llawr dirwystr cyfan sydd ar gael i bob banwes ar ôl serfio ac i bob hwch pan fydd banwesi a/neu hychod yn cael eu cadw mewn grwpiau fod yn 1.64m² a 2.25m² o leiaf yn y drefn honno. Pan fydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu cadw mewn grwpiau o lai na chwe unigolyn, rhaid cynyddu 10% ar yr arwynebedd llawr dirwystr. Pan fydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu cadw mewn grwpiau o 40 neu ragor o unigolion, caniateir lleihau 10% ar yr arwynebedd llawr dirwystr.

39. Ar gyfer banwesi ar ôl serfio a hychod torrog rhaid i ran o'r arwynebedd sy'n ofynnol o dan baragraff 38 fod yn hafal i 0.95m² fesul banwes o leiaf ac 1.3m² fesul hwch o leiaf fod yn llawr cadarn parhaus y mae uchafswm o 15% ohono wedi'i neilltuo ar gyfer agoriadau traenio.

40. Caniateir i hychod a banwesu sy'n cael cael eu cadw ar ddaliadau o lai na 10 hwch gael eu cadw fesul anifail ungiol ar yr amod bod eu llety yn cydymffurfio â gofynion paragraffau 7 ac 8 o Ran II o'r Atodlen hon. [gweler y blwch uwchben paragraff 47]

41. Yn ychwanegol at ofynion paragraff 14 o Ran II o'r Atodlen hon, [gweler y blwch uwchben paragraff 67], rhaid i hychod a banwesi gael eu bwydo drwy ddefnyddio system sy'n sicrhau bod modd i bob unigolyn gael gafael ar ddigon o fwyd hyd yn oed pan fydd cystadleuwyr am y bwyd yn bresennol.

42. Rhaid rhoi i bob hwch a banwes dorrog hesb ddigon o swmpfwyd neu fwyd ffibr uchel yn ogystal â bwyd ynni uchel i ddigoni eu chwant bwyd a'u hangen i gnoi.

102. Gall ymosodedd cynhenid fod yn broblem ddifrifol pan fydd hychod a banwesi yn cael eu cadw mewn grwpiau. Mae llawer yn dibynnu ar anian anifeiliaid unigol. Mae digon o le yn arbennig o bwysig pan fydd hychod yn cael eu cymysgu fel bod modd i anifeiliaid ddianc rhag ymosodwyr. Dylid rheoli hychod paredd cyntaf a hychod y mae cyflwr eu cyrff wedi dirywio fel grwpiau ar wahân. Dylai'r ceidwaid stoc sicrhau na fydd bwlio cyson, a allai arwain at anafiadau difrifol neu at gael eu hamddifadu o fwyd, yn digwydd. Dylech symud

unrhyw anifail sy'n dioddef bwlio cyson i lety gwahanol. Gall fod yn ofynnol rhoi anifeiliaid y mae'n effeithio arnynt mewn corlannau ar wahân os bydd bwlio cyson yn digwydd.

103. Cymeradwyir cyfleusterau bwydo lle mae modd bwydo'r anifeiliaid yn unigol ac ar ôl eu rhyddhau. Serch hynny, os ydych yn bwydo hychod drwy ddefnyddio system nad yw'n cynnwys rhyw ffurf ar amddiffyniad yn ystod cyfnod bwydo, megis bwydo ar y llawr, yna rhaid i chwi ddosbarthu'r bwyd mewn sawl man ac yn y fath fodd ag i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn gallu cael ei ddogn.

104. Dylid bwydo hychod a banwesi bridio yr un pryd lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn osgoi cyffro gormodol. Mae rhai systemau bwydo wedi'u dylunio i fwydo anifeiliaid y naill ar ôl y llall i atal aelodau o'r un corlan rhag amharu arnynt. Mae angen i geidwaid stoc roi sylw arbennig i'r mater o sicrhau bod cyfarpar o'r fath yn gweithio'n iawn a bod pob aelod o'r grŵp yn gallu cael ei ddogn.

105. Argymhellir yn gryf y dylai gwasarn gael ei ddarparu mewn systemau lletya rhydd ar gyfer hychod a banwesi.

**Baeddod**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan III, paragraffau 27 i 30:

27. Rhaid lleoli ac adeiladu corlannau baeddod i ganiatáu i'r baedd droi o amgylch a chlywed, gweld ac arogli moch eraill, a rhaid iddynt gynnwys mannau gorffwys glân.

28. Rhaid i'r man gorffwys fod yn sych ac yn gysurus.

29(1) Rhaid i arwynebedd dirwystr lleiaf y llawr ar gyfer baedd llawndwf fod yn chwe metr sgwâr, ac eithrio fel a nodir ym mharagraff 29(2) yn yr offeryn hwn.
(2) Pan fydd corlannau baeddod yn cael eu defnyddio hefyd ar gyfer serfio naturiol, rhaid i arwynebedd y llawr fod yn $10m^2$ o leiaf a rhaid iddo fod yn rhydd rhag unrhyw rwystrau.

106. Dylai waliau rhwng corlannau fod yn ddigon uchel i atal baeddod rhag dringo a/neu neidio i mewn i gorlannau cyfagos. Dylid lleoli corlannau fel bod modd i faeddod weld moch eraill. Ni ddylech fynd i mewn i gorlannau baeddod heb fwrdd mochyn a rhaid bod modd i chwi ddianc o'r gorlan yn rhwydd os bydd y baedd yn dechrau troi'n ymosodol.

107. Yn gyffredinol mae baeddod yn cael eu lletya fesul unigolyn ac mae arnynt angen naill ai digon o ddeunydd gwasarn neu dymheredd amgylcheddol sy'n cael ei reoli'n fanwl. Gall eithafion tymheredd arwain at anffrwythlondeb dros dro ac fe all effeithio ar fodlonrwydd baedd neu ei allu i weithio'n foddhaol.

108. Fel canllaw, dylai llety unigol ar gyfer baedd llawndwf fod ag arwynebedd llawr heb fod yn llai na 7.5m$^2$.Dylid darparu gwasarn yn y man gorwedd. Mewn corlan sydd wedi'i bwriadu at ddibenion paru, dylid cadw'r arwynebedd llawr cyfan yn sych neu ddarparu digon o wasarn i roi gafael digonol i'r baedd yn ystod serfio. Bydd defnyddio ychydig o dywod bras ar loriau yn lleihau'r perygl o lithro.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 24:

Caniateir byrhau ysgithredd baeddod pan fydd angen er mwyn atal anafiadau i anifeiliaid eraill neu am resymau diogelwch.

**Moch sy'n cael eu cadw mewn systemau hwsmona awyr agored**

**Cyffredinol**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001 Rhif 2682), Atodlen 1, paragraff 17:

Rhaid i anifeiliaid na chedwir mohonynt mewn adeiladau, pan fo angen a phan fo'n bosibl, gael eu hamddiffyn rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd a chael y cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

109. Rhaid dewis safleoedd ar gyfer mentrau moch awyr agored yn ofalus. Yn gyffredinol mae tir sy'n dueddol o gael ei orlifo, safleoedd sydd wedi'u traenio'n wael, priddoedd caregog (yn enwedig rhai fflintaidd) a safleoedd gyda phriddoedd trwm (yn enwedig mewn ardaloedd glaw trwm), yn anaddas ar gyfer systemau awyr agored. Y rhai mwyaf addas yw priddoedd sy'n traenio'n rhydd mewn ardaloedd glaw ysgafn.

110. Rhaid i ddwyseddau stocio mewn caeau adlewyrchu addasrwydd y safle a'r system reoli. Mae canllaw o 25 o hychod fesul hectar yn gyffredinol yn rhesymol ar gyfer safleoedd addas. Efallai y bydd angen i chi leihau dwyseddau stocio ar safleoedd sy'n llai delfrydol neu o dan amgylchiadau eithafol yn ystod cyfnodau o dywydd gwael. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn llyfryn DEFRA, "Site suitability for outdoor pig farming" (gweler yr atodiad).

111. Rhaid i stoc sy'n cael ei ddewis ar gyfer cynhyrchu awyr-agored fod yn addas ar gyfer amodau awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bridio yn darparu mathau sydd wedi'u datblygu i'w defnyddio yn yr awyr agored.

112. Dylai cynllun iechyd a lles eich cenfaint gynnwys strategaeth ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd brys megis darparu dŵr mewn amodau rhewllyd a darparu bwyd i'r safle ac i'r padogau mewn eira neu dywydd gwlyb difrifol.

**Biodiogelwch**

113. Os ydych yn cymryd rhagofalon priodol pan fyddwch yn symud o fewn y fferm neu pan fyddwch yn symud anifeiliaid a chyfarpar, gallwch leihau yn fawr

iawn ar gyfle clefydau i ymledu (gweler paragraffau 21-22). Bydd angen i stoc amnewid sy'n dod i mewn gynefino ag amodau awyr agored. Mae darparu llety cysurus a chynnes yn arbennig o bwysig i'r anifeiliaid hyn.

114. I atal organeddau clefydau rhag cronni a throsglwyddo, dylech ail-leoli tylciaui rhwng cyflenwadau moch a dylid gwaredu y gwasarn gwellt. Gellir cael mwy o wybodaeth am fiodiogelwch, yn enwedig glanhau a diheintio yng ngyhoeddiad DEFRA publication (Better biosecurity provides peace of mind, healthy stock and a more viable business' (gweler yr Atodiad).

**Llety**

115. Dylid darparu cyflenwad hael o wasarn ar gyfer pob twlc a chwt sy'n cael ei ddefnyddio a dylai fod ganddynt man gorwedd cynnes sy'n rhydd rhag drafftiau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer yr hwch a'r torllwyth adeg porchella ac yn ystod y cyfnod rhoi sugn ac ar gyfer moch sydd newydd eu diddyfnu.

116. Dylid cynnal a chadw pob twlc a chwt yn briodol, yn enwedig er mwyn sicrhau na fydd difrod wrth ei drafod neu ddifrod gan y moch yn creu ymylon miniog a all niweidio'r anifeiliaid.

117. Rhaid darparu cysgod digonol hefyd i amddiffyn yr anifeiliaid rhag amodau tywydd anffafriol. Dylai tylciau gael eu gosod yn hollol sownd i'r ddaear, yn enwedig mewn tywydd oer a gwyntog a dylid eu lleoli fel bod modd addasu'r drysau yn wyneb amgylchiadau tywydd amrywiol. Gall amodau gwlyb greu problemau lles mwy difrifol na'r oerni gan fod lleithder yn cael ei gario'n rhwydd i mewn i'r tylciau ar y traen a'r cyrff, gan beri i foch bach oeri, ac mae'n darparu'r amgylchedd delfrydol i ficro-organeddau ffynnu.

118. Rhaid darparu lloches ddigonol i amddiffyn yr anifeiliaid rhag yr haul yn yr haf. Dylid darparu trybolâu ar gyfer y stoc bridio i'w caniatáu i oeri eu hunain ac i gynhyrchu llaid a all helpu i atal llosgi yn yr haul. Gellir cael mwy o wybodaeth yn llyfryn DEFRA, sef "Heat stress in pigs" (gweler yr Atodiad).

**Bwydo a dyfrio**

119. Dylid dosbarthu bwyd mewn sawl man ac yn gyfartal i osgoi ymosodedd rhwng yr anifeiliaid oni bai bod dull amgen yn cael ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn bwyta'r un faint o fwyd.

120. Dylai'r ceidwaid stoc fonitro cyflwr cyrff y moch yn ofalus yn ystod eithafion tywydd ac addasu'r bwyd sy'n cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, Paragraff 16 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn dros ddwy wythnos oed gael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd.

121. Dylai trefniadau fod wedi'u sefydlu i sicrhau cyflenwad dŵr i'r holl stoc ym mhob tywydd. Mae angen rhoi sylw penodol adeg tywydd rhewllyd.

**Ffensys**

122. Dylai ffensys trydan gael eu dylunio, eu hadeiladu, eu defnyddio a'u cynnal yn briodol, er mwyn i'r anifeiliaid deimlo ond ychydig o anesmwythder wrth gyffwrdd â hwy. Rhaid i bob uned bŵer ar gyfer ffensys trydan gael eu daearu'n briodol i atal cylchedau pwt neu atal trydan rhag cael ei ddargludo i unrhyw le na ddylai fynd, er enghraifft, i lidiartau a chafnau dŵr.

123. Mae'n annhebyg y byddai stoc bridio newydd wedi'i hyfforddi i ymdopi â ffensys trydan. Dylai fod gennych padog hyfforddi gyda ffens ddiogel, megis rhwydenni moch, y tu allan i'r ffens drydan i helpu'r anifeiliaid i weld y ffens ac i sicrhau nad oes modd iddynt ddianc o'r uned.

124. Dylid gwneud pob ymdrech i amddiffyn moch, yn enwedig perchyll ifanc, rhag ysglyfaethwyr. Dylid ystyried cymryd camau megis rhaglen rheoli ysglyfaethwyr ac o bosibl ffens i atal llwynogod.

**Hychod porchella a pherchyll**

125. O dan amodau poeth gall hychod sy'n llaetha gael eu hysgogi i ymadael â'r twlc i chwilio am amodau mwy cysurus y tu allan, gan droi eu cefnau mewn gwirionedd ar eu torllwyth. Dylai tylciau perchylla gael eu hinswleiddio a rhaid bod ganddynt darpariaeth ar gyfer rhywfaint o awyriad ychwanegol megis fflapiau a reolir â llaw.

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan IV, paragraff 35:

Rhaid i gorlannau porchella lle cedwir hychod yn rhydd gael rhyw fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella.

126. Dylai tylciau porchella gael eu lleoli ar dir gwastad i leihau'r perygl o lethu. Dylid defnyddio byrddau atal addas i rwystro perchyll ifanc iawn rhag mynd ar ddisberod yn ystod y cyfnod ar ôl porchella.

**Modrwyo trwynau**

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003 Rhif ????), Atodlen 6, Rhan II, paragraff 25:

Ni chaniateir rhoi modrwyau trwyn ar anifeiliaid sy'n cael eu cadw'n barhaus mewn systemau hwsmona dan do.

127. Llurguniad yw modrwyo trwynau a dylid ei osgoi lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'n cael ei wneud fel arfer i atal moch rhag cloddio'r padogau a gwneud niwed i'r llystyfiant ar y wyneb drwy dyrchu'n ormodol. Gall modrwyo trwynau

leihau'r risg o lygru'r amgylchedd pan fydd risg o erydu'r pridd a thrwytholchi maetholion o ysgarthion. Pan fydd angen modrwyo trwynau moch, dylai gael ei wneud gan filfeddyg neu gan weithredydd hyfforddedig cymwys yn unig. Dylai pob cyfarpar cael ei lanhau a'i ddiheintio cyn ymdrin â'r mochyn nesaf.

## YR ATODIAD

**Cyhoeddiadau defnyddiol sydd ar gael o'r Cynulliad Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| PB 4444 | Addasrwydd Safle ar gyfer Ffermio Moch y tu allan |

**DEFRA**

| Rhif PB | Teitl |
|---|---|
| 0409 | Code of Practice – the welfare of animals in livestock markets |
| 0621 | Farm fires: advice on farm animal welfare |
| 1147 | Emergencies on livestock farms |
| 1148 | Lameness in Pigs |
| 1316 | Heat Stress in Pigs - Solving the problem |
| 1387 | Guidance on the transport of casualty farm animals |
| 2594 | Explanatory guide to the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995 |
| 3480 | Condition scoring of pigs |
| 3575 | Assessment of practical experience in the handling, transport and care of animals: guide to employers |
| 3766 | Guidance on the Welfare of Animals (Transport) Order 1997 |
| 4444 | Site suitability for outdoor pig farming |
| ---- | Guidance on the Transport of Animals (Cleansing and Disinfection) (England) (No. 2) Order 2000 |
| ---- | Better Biosecurity Provides Peace of Mind, Healthy Stock and a More Viable Business |

Gellir cael copïau o'r cyhoeddiadau hyn, yn rhad ac am ddim, o'r cyfeiriad canlynol:

DEFRA Publications
Admail 6000
Llundain
SW1A 2XX
Archebion dros y ffôn (am gyhoeddiadau rhad ac am ddim): 0845 955 6000
Ymholiadau ffôn: 0845 955 6000
E-bost: defra@sr-comms.co.uk
Gwefan: www.defra.gov.uk

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. I gael mwy o wybodaeth am y fersiynau mwyaf cyfredol a'r cyhoeddiadau newydd, cysylltwch ag Is-adran Lles Anifeiliaid DEFRA drwy ffonio: 020 7904 6521

**Deddfwriaeth sy'n ymwneud â lles moch**

| Rhif O.S. | Teitl |
|---|---|
| | Deddfau Cŵn 1906 – 1928 |
| | Deddfau Diogelu Anifeiliaid 1911 – 2000 |
| | Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954 |
| | Deddf Milfeddygon 1966 |
| | Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 |
| O.S. 1974 Rhif 798 | Gorchymyn Tocio Moch (Defnyddio Anesthetyddion) 1974 |
| O.S. 1982 Rhif 1884 | Rheoliadau Lles Da Byw (Gweithrediadau Gwaharddedig) 1982 |
| O.S. 1990 Rhif 2627 | Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 |
| O.S. 1995 Rhif 731 | Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 |
| O.S. 1997 Rhif 1480 | Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) 1997 |
| O.S. 1997 Rhif 1729 | Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997 |
| O.S. 1998 Rhif 2537 | Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Mannau Cynnull) 1998 |
| O.S. 1998 Rhif 463 | Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998 |
| O.S. 1999 Rhif 1622 | Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Diwygio) 1999 |
| O.S. 1999 Rhif 400 | Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) (Diwygio) 1999 |
| O.S. 1999 Rhif 646 | Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1999 |
| O.S. 2000 Rhif 1870 | Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 |
| O.S. 2000 Rhif 646 | Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cynlluniau Peilot Planiau Llwybrau Electronig) (Lloegr) 2000 |

Gallwch gael copïau o'r ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y Cod hwn o'r Llyfrfa yn y cyfeiriad canlynol:

Canolfan Cyhoeddiadau'r Llyfrfa
Blwch Post 276
Llundain SW8 5DT
Archebion ffôn: 0870 600 5522
Ymholiadau ffôn: 020 7873 0011
E-bost: book.enquiries@theso.co.uk
Gwefan: www.the-stationery-office.co.uk

**Cyhoeddiadau gan gyrff heblaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu DEFRA sy'n ymwneud â lles moch**

*Code of practice on the responsible use of animal medicines on the farm* (Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol)

Cyfres Grŵp Ymgynghorol Lles Moch
Rhif 1 Introduction of sows into groups
Rhif 2 Non-straw and low-straw systems for housing dry sows
Rhif 3 Muck handling for sows
Rhif 4 Cubicles and free-access stalls
Rhif 5 Yards and individual feeders
Rhif 7 Yards or kennels with floor feeding
Rhif 8 Outdoor sows
Rhif 9 Electronic sow feeders (ESF)

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth neu gyngor pellach am y Cod hwn, cysylltwch ag Is-adran Lles Anifeiliaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ffonio:.

## COD ARGYMHELLION AR GYFER LLES DA BYW: MOCH

NODYN

***Mae'r Cod hwn (sy'n cynnwys paragraffau 1 i 127), sydd wedi'i baratoi yn dilyn ymgynghoriad, yn cael ei ddyroddi o dan Adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968.***

***Fe fydd yr argymhellion hyn yn cael eu hysbysu i'r Comisiwn Ewropeaidd yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC (1998 OJ L204).***

***Mae adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 yn caniatáu i "the Ministers" gynhyrchu codau argymhellion ar gyfer lles da byw a dyroddi codau o'r fath.***

***Mewn perthynas â Chymru, mae pwerau "the Ministers" wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Genedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mare'r broses Seneddol yn adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 wedi'i datgymhwyso gan adran 44(2)_o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.***